

Rhif Ymchwil Gymdeithasol: 44/2025

Dyddiad cyhoeddi: 29/05/2025

Adolygiad o ryddhadau ardrethi annomestig: adroddiad terfynol

Mae'r ddogfen hon hefyd ar gael yn Saesneg.

This document is also available in English.

OGL © Hawlfraint y Goron ISBN Digidol 978-1-83715-768-6

Adolygiad o ryddhadau ardrethi annomestig: adroddiad terfynol

Alma Economics



Adroddiad Ymchwil Llawn: Alma Economics (2025). Adolygiad o ryddhadau ardrethi annomestig. Caerdydd: Llywodraeth Cymru, rhif adroddiad GSR 44/2025

Ar gael drwy: <https://www.llyw.cymru/adolygiad-o-ryddhadau-ardrethi-annomestig>

Safbwyntiau'r ymchwilydd ac nid o reidrwydd rhai Llywodraeth Cymru yw'r safbwyntiau a fynegir yn yr adroddiad hwn.

I gael rhagor o wybodaeth, cysylltwch â:

Louisa Smith

Gwasanaethau Gwybodaeth a Dadansoddi

Llywodraeth Cymru

Parc Cathays

Caerdydd

CF10 3NQ

E-bost: ymchwil.gwasanaethaucyhoeddus@llyw.cymru

Tabl cynnwys

Trosolwg o'r prosiect.....	9
Cefndir polisi	9
Ffigur 1. Fformiwla bil ardrethi annomestig	9
Ffigur 2. Ardrethi gros sy'n daladwy (£ miliwn)	10
Ffigur 3. Gostyngiadau mewn ardrethi gros sy'n daladwy oherwydd rhyddhad gorfodol	11
Rhesymeg ymchwil a sefyllfa bresennol rhyddhadau ardrethi annomestig	11
Methodoleg.....	14
Gweithgareddau ymchwil Efen 1	14
Gweithgareddau ymchwil Efen 2.....	15
Gweithgareddau ymchwil Efen 3.....	15
Cyfyngiadau methodolegol	16
Menwelediadau Efen 1	17
Crynodeb o'r canfyddiadau	17
Mapio rhyddhadau ardrethi annomestig	17
Ffigur 4. Gwerth rhyddhadau ardrethi annomestig gorfodol (£ mil)	18
Tabl 1. Gwerthoedd rhyddhad amcangyfrifedig ar gyfer rhyddhadau dros dro (2023-24 a 2024-25).....	19
Tabl 2. Trosolwg o ryddhadau ardrethi annomestig wedi'u mapio.....	22
Drafftio'r egwyddorion	24
Symrlwydd a chydymffurfiaeth	25
Sicrwydd	26
Digonolrwydd refeniw	26
Effeithlonrwydd economaidd.....	27
Tegwch	29
Tabl 3. Trosolwg o'r egwyddorion.....	29
Gwerthusiad rhagarweiniol o ryddhadau ardrethi annomestig	31
Tabl 4. Categoriâu sgorio gwerthuso rhagarweiniol	32

Tabl 5. Gwerthusiad rhagarweiniol o ryddhadau ardrethi annomestig gan ddefnyddio'r egwyddorion.....	32
Ffigur 5. Dangosydd digonolrwydd refeniw - costau rhyddhad fel cyfran o'r ardrethi gros sy'n daladwy (amcangyfrifon 2024-25).....	40
Menwelediadau Elfen 2	41
Crynodeb o'r canfyddiadau	41
Gweithdai awdurdodau lleol.....	41
Egwyddorion a ddefnyddiwyd i asesu'r rhyddhadau ardrethi annomestig	42
Ymwybyddiaeth talwyr ardrethi o'r rhyddhadau	43
Asesu cymhwysedd talwyr ardrethi am ryddhadau.....	44
Rhyddhadau ardrethi annomestig ac adnoddau awdurdodau lleol	46
Cymhlethdodau a rhyngweithiadau rhwng rhyddhadau	48
Arferion gorau a meysydd i'w gwella ar gyfer gweinyddu rhyddhadau.....	49
Sylwadau ehangach	49
Menwelediadau Elfen 3	51
Crynodeb o ganfyddiadau'r arolwg	51
Arolwg talwyr ardrethi	51
Cyfyngiadau.....	52
Crynodeb o'r ymatebwyr	52
Tabl 6. Crynodeb o'r ymatebwyr – sampl wedi'i bwysoli o 500 o fusnesau ledled Cymru.....	53
Ymwybyddiaeth o ryddhadau.....	54
Ffigur 6. Canran y busnesau sy'n derbyn rhyddhad ardrethi annomestig	55
Ffigur 7. Canran y busnesau yn ôl nifer y gweithwyr sy'n derbyn Rhyddhad Ardrethi Busnesau Bach	56
Ffigur 8. Canran y busnesau yn ôl gwerth trosiant sy'n derbyn Rhyddhad Ardrethi Busnesau Bach	56
Ffigur 9. Canran y busnesau yn ôl math o weithgaredd sy'n derbyn RhAMHLI.....	57
Ffigur 10. Canran y busnesau sy'n adrodd ffafiaeth o ran rhyddhad ychwanegol	58
Effaith economaidd rhyddhadau	58

Ffigur 11. Canran y busnesau sy'n adrodd am effeithiau rhyddhadau ardrethi annomestig.....	59
Ffigur 12. Canran y busnesau sy'n adrodd am effeithiau rhyddhadau ardrethi annomestig yn ôl trosiant	60
Ffigur 13. Canran y busnesau sy'n adrodd am effeithiau rhyddhadau ardrethi annomestig yn ôl y math o weithgaredd.....	61
Ffigur 14. Canran y busnesau sy'n adrodd am effaith rhyddhadau ardrethi annomestig ar eu gallu i weithredu dros y 12 mis nesaf.....	61
Ffigur 15. Canran y busnesau yn ôl nifer y gweithwyr sy'n adrodd am effaith rhyddhadau ardrethi annomestig ar eu gallu i weithredu dros y 12 mis nesaf.....	62
Ffigur 16. Canran y busnesau yn ôl math o weithgaredd sy'n adrodd am effeithiau rhyddhadau ardrethi annomestig ar eu gallu i weithredu dros y 12 mis nesaf.....	63
Sicrwydd rhyddhadau	63
Ffigur 17. Canran y busnesau sy'n adrodd sicrwydd ynghylch cyfraddau rhyddhadau ardrethi annomestig y maent yn debygol o'u derbyn yn y dyfodol	64
Ffigur 18. Canran y busnesau yn ôl nifer y gweithwyr sy'n adrodd sicrwydd ynghylch cyfraddau rhyddhadau ardrethi annomestig y maent yn debygol o'u derbyn yn y dyfodol.....	64
Ffigur 19. Canran y busnesau yn ôl gweithgaredd busnes sy'n adrodd sicrwydd ynghylch cyfraddau rhyddhadau ardrethi annomestig y maent yn debygol o'u derbyn yn y dyfodol	65
Crynodeb o ganfyddiadau'r cyfweiliadau a grwpiau ffocws.....	66
Ymgysylltu â thalwyr ardrethi a chyrff cynrychioliadol.....	66
Canfyddiadau o hyd a lled y cymorth ariannol ar hyn o bryd	67
Ymwybyddiaeth o ryddhadau ardrethi annomestig	68
Dealltwriaeth o feini prawf cymhwyster rhyddhad ardrethi annomestig	68
Bodddhad gyda'r broses o dderbyn rhyddhadau	68
Effeithiau derbyn rhyddhadau ardrethi annomestig	69
Y cysylltiad rhwng refeniw ardrethi annomestig a'r nwyddau a'r gwasanaethau a ariennir yn ei sgil.....	69
Casgliadau	71
Cyfeirnodau	73

Atodiad A.....	74
Atodiad B.....	77
Atodiad C.....	82
Atodiad D.....	86

Rhestr o dablau

Tabl 1. Gwerthoedd rhyddhad amcangyfrifedig ar gyfer rhyddhadau dros dro (2023-24 a 2024-25).....	19
Tabl 2. Trosolwg o ryddhadau ardrethi annomestig wedi'u mapio	22
Tabl 3. Trosolwg o'r egwyddorion	29
Tabl 4. Categorïau sgorio gwerthuso rhagarweiniol.....	32
Tabl 5. Gwerthusiad rhagarweiniol o ryddhadau ardrethi annomestig gan ddefnyddio'r egwyddorion.....	32
Tabl 6. Crynodeb o'r ymatebwyr – sampl wedi'i bwysoli o 500 o fusnesau ledled Cymru.....	53

Rhestr o ffigurau

Ffigur 1. Fformiwla bil ardrethi annomestig	9
Ffigur 2. Ardrethi gros sy'n daladwy (£ miliwn).....	10
Ffigur 3. Gostyngiadau mewn ardrethi gros sy'n daladwy oherwydd rhyddhad gorfodol	11
Ffigur 4. Gwerth rhyddhadau ardrethi annomestig gorfodol (£ mil).....	18
Ffigur 5. Dangosydd digonolrwydd refeniw - costau rhyddhad fel cyfran o'r ardrethi gros sy'n daladwy (amcangyfrifon 2024-25).....	40
Ffigur 6. Canran y busnesau sy'n derbyn rhyddhad ardrethi annomestig	55
Ffigur 7. Canran y busnesau yn ôl nifer y gweithwyr sy'n derbyn Rhyddhad Ardrethi Busnesau Bach	56
Ffigur 8. Canran y busnesau yn ôl gwerth trosiant sy'n derbyn Rhyddhad Ardrethi Busnesau Bach.....	56
Ffigur 9. Canran y busnesau yn ôl math o weithgaredd sy'n derbyn RhAMHLI	57
Ffigur 10. Canran y busnesau sy'n adrodd ffafriaeth o ran rhyddhad ychwanegol.....	58
Ffigur 11. Canran y busnesau sy'n adrodd am effeithiau rhyddhadau ardrethi annomestig.....	59
Ffigur 12. Canran y busnesau sy'n adrodd am effeithiau rhyddhadau ardrethi annomestig yn ôl trosiant	60
Ffigur 13. Canran y busnesau sy'n adrodd am effeithiau rhyddhadau ardrethi annomestig yn ôl y math o weithgaredd	61
Ffigur 14. Canran y busnesau sy'n adrodd am effaith rhyddhadau ardrethi annomestig ar eu gallu i weithredu dros y 12 mis nesaf	61
Ffigur 15. Canran y busnesau yn ôl nifer y gweithwyr sy'n adrodd am effaith rhyddhadau ardrethi annomestig ar eu gallu i weithredu dros y 12 mis nesaf	62
Ffigur 16. Canran y busnesau yn ôl math o weithgaredd sy'n adrodd am effeithiau rhyddhadau ardrethi annomestig ar eu gallu i weithredu dros y 12 mis nesaf.....	63
Ffigur 17. Canran y busnesau sy'n adrodd sicrwydd ynghylch cyfraddau rhyddhadau ardrethi annomestig y maent yn debygol o'u derbyn yn y dyfodol.....	64
Ffigur 18. Canran y busnesau yn ôl nifer y gweithwyr sy'n adrodd sicrwydd ynghylch cyfraddau rhyddhadau ardrethi annomestig y maent yn debygol o'u derbyn yn y dyfodol	64

Ffigur 19. Canran y busnesau yn ôl gweithgaredd busnes sy'n adrodd sicrwydd ynghylch cyfraddau rhyddhadau ardrethi annomestig y maent yn debygol o'u derbyn yn y dyfodol	65
--	----

Geirfa

NDR

Ardrethi Annomestig

RhAMHLI

Rhyddhad Ardrethi Manwerthu, Hamdden a Lletygarwch

GA

Gwerth Ardrethol

BBaCh

Busnes Bach a Chanolig

VOA

Asiantaeth y Swyddfa Brisio

Trosolwg o'r prosiect

Cefndir polisi

- 1.1 Enw arall ar ardrethi annomestig yw trethi busnes, sef trethi lleol a gaiff eu codi ar y rhan fwyaf o eiddo annomestig gan gynnwys siopau, swyddfeydd, tafarndai, warysau, ffatrioedd a gwestai. Codir y dreth ar ddeiliaid eiddo neu berchnogion lle nad yw eiddo wedi'i feddiannu. Caiff ei dalu gan fusnesau a sefydliadau eraill, gan gynnwys elusennau a'r sector cyhoeddus. Gelwir y rhai sy'n talu'r dreth yn dalwyr ardrethi. Caiff yr holl refeniw ardrethi annomestig ei dalu i 'gronfa ardrethi annomestig Llywodraeth Cymru' ac yna ei ddosbarthu i'r 22 awdurdod lleol a'r pedwar comisiynydd heddlu a throseddau yn unol â'u cyfran o'r boblogaeth oedolion.
- 1.2 Cyfrifir y tâl ardrethi annomestig ar gyfer pob eiddo drwy gymryd ei werth ardrethol a'i luosi â'r lluosydd ardrethi annomestig. Os bydd talwyr ardrethi hefyd yn gymwys i gael rhyddhad, bydd hyn yn cael ei gymhwyso i leihau'r bil ardrethi annomestig ar gyfer yr eiddo. Mae cynrychiolaeth weledol o'r cyfrifiad hwn i'w weld isod, yn Ffigur 1. Asiantaeth y Swyddfa Brisio sy'n pennu'r gwerth ardrethol ac mae'n seiliedig ar y rhent blyneddol y gallai'r eiddo fod wedi cael ei osod arno ar y farchnad agored ar ddyddiad penodol (ar hyn o bryd, 1 Ebrill 2021).¹ Pennir y lluosydd gan Lywodraeth Cymru, sydd â'r disgrisiwn i'w addasu bob blwyddyn o'r cynnydd diofyn, yn unol â chwyddiant prisiau defnyddwyr. Ar gyfer blwyddyn ariannol 2024-25, y lluosydd yw 0.562.² Y lluosydd a bennwyd ar gyfer 2025-26 yw 0.568.

Ffigur 1. Fformiwla bil ardrethi annomestig




¹ Disgwylir i ailbriso ddigwydd bob pum mlynedd. Fodd bynnag, gohiriodd Llywodraeth Cymru yr ailbriso diweddaraf hyd at 2023, gan arwain at gyfnod ychydig yn estynedig rhyngddo a'r un blaenorol, a gynhaliwyd yn 2017 (yn seiliedig ar werthoedd ardrethol o 1 Ebrill 2015). Mae [Deddf Cyllid Llywodraeth Leol \(Cymru\) 2024](#) yn cynyddu amlder yr ailbriso i bob tair blynedd.

² Llywodraeth Cymru. '[Ardrethi busnes yng Nghymru](#)'. Awst 2024.

- 1.3 Yr ardrethi gros oedd yn daladwy³ yn 2022-23 oedd £1,297 miliwn, i lawr o £1,302 miliwn yn 2020-21. Amcangyfrifir y bydd yr ardrethi gros sy'n daladwy ar gyfer 2023-24 a 2024-25 yn cynyddu ac yn cyrraedd £1,382 miliwn yn 2024-25, fel y dangosir yn Ffigur 2. Amcangyfrifir bod ardrethi annomestig yn 2023-24 yn cyfrif am oddeutu 12% o refeniw'r awdurdodau lleol⁴, gan eu gwneud yn ffynhonnell refeniw lleol nad yw'n ddibwys.

Ffigur 2. Ardrethi gros sy'n daladwy (£ miliwn)⁵



- 1.4 Mae rhyddhadau ardrethi annomestig yn darparu cymorth ariannol i fathau penodol o dalwyr ardrethi, gan gynnwys elusennau a busnesau bach. Bydd diben y rhyddhad yn dibynnu ar y buddiolwyr dan sylw. Mae dau fath o ryddhad: gorfodol ac yn ôl disgrisiwn. Mae rhyddhadau gorfodol yn cael eu rhagnodi mewn deddfwriaeth ac yn aml fe'u cymhwysir yn awtomatig i filiau eiddo cymwys. Gall awdurdodau lleol ddewis darparu rhyddhadau ychwanegol yn ôl eu disgrisiwn i adlewyrchu amgylchiadau a blaenoriaethau yn eu hardaloedd, y maent fel arfer yn eu hariannu'n rhannol neu'n llawn.


³ Mae hyn yn cyfeirio at swm bilio llawn Ardrethi Annomestig, heb gyfrif am unrhyw ddidyniadau drwy ryddhadau neu gostau casglu.

⁴ [Llywodraeth Cymru. Cyllideb refeniw awdurdodau lleol a rhagolygon gwariant cyfalaf: 2023-2024](#)

⁵ Ar gyfer blynyddoedd 2016-17 i 2022-23: [StatsCymru. Ardrethi annomestig, yn ôl disgrifiad rhes NDR \(£ mil\)](#)
Ar gyfer blynyddoedd 2023-24 a 2024-25: [StatsCymru. Amcangyfrifon o ardrethi annomestig yn ôl disgrifiad rhes \(£ mil\)](#)

1.5 Mae cyfanswm y gostyngiadau mewn ardrethi gros oherwydd rhyddhadau gorfodol wedi cynyddu'n raddol dros amser, o tua 16% yn 2012-13 i bron i 20% yn y blynyddoedd mwy diweddar⁶. Dangosir hyn isod yn Ffigur 3, nad yw'n cynnwys gostyngiadau ychwanegol o'r Rhyddhad Ardrethi Manwerthu, Hamdden a Lletygarwch (RhAMHLI) dros dro, a ariennir gan Lywodraeth Cymru ac a ddarperir gan ddefnyddio pwerau yn ôl disgrisiwn awdurdodau lleol ers 2020-21.

Ffigur 3. Gostyngiadau mewn ardrethi gros sy'n daladwy oherwydd rhyddhad gorfodol⁷



Rhesymeg ymchwil a sefyllfa bresennol rhyddhadau ardrethi annomestig

1.6 Yn ystod y blynyddoedd diwethaf, mae Llywodraeth Cymru wedi archwilio opsiynau ar gyfer diwygio cyllid llywodraeth leol, gan gyhoeddi crynodeb o'r canfyddiadau ym mis Chwefror 2021⁸. Amlinellodd yr ymchwil hon, ymhlith materion eraill, ffyrdd posibl o wella'r system ardrethi annomestig. Ymhlith yr awgrymiadau nodwyd y canlynol:

- Gellid gwneud cyswllt cliriach rhwng y baich treth a'r nwyddau neu'r gwasanaethau y mae'r refeniw wedyn yn eu cyllido;

⁶ Llywodraeth Cymru. 'Ardrethi annomestig (gwir): Ebrill 2022 i Fawrth 2023'. Ebrill 2024..

⁷ Sylwch fod hyn yn cynnwys yr holl ryddhadau gorfodol a thua 0.5% bob blwyddyn yn ymwneud â rhyddhad yn ôl disgrisiwn. Nid yw RhAMHLI wedi'i gynnwys. Gyda'r rhyddhad hwn wedi'i gynnwys byddai'r gostyngiad mewn ardrethi gros sy'n daladwy yn uwch o 2020-21 ymlaen.

⁸ Llywodraeth Cymru. 'Diwygio Cyllid Llywodraeth Leol yng Nghymru: Crynodeb o'r Canfyddiadau'. Chwefror 2021.

- Mae buddiannau i'w cael o gynnal ailbrisiadau yn amlach;
- Dylai rhyddhadau ardrethi annomestig gyrraedd y rhai sydd angen cymorth; ac
- Efallai y bydd angen adolygu a chyfuno rhyddhadau i leihau cymhlethdod.

- 1.7 Ym mis Mawrth 2022, nododd y Gweinidog Cyllid a Llywodraeth Leol gynlluniau Llywodraeth Cymru ar gyfer diwygio ardrethi annomestig yn ystod tymor presennol y Senedd⁹. Lansiwyd ymgynghoriad o fis Medi i fis Rhagfyr 2022, oedd yn gofyn am farn ar ystod eang o welliannau i'r system ardrethi annomestig yng Nghymru, gan gynnwys cylchoedd ailbrisio amlach, gwell llif gwybodaeth rhwng llywodraeth a'r talwyr ardrethi, ac adolygiad o ryddhadau i sicrhau bod trefniadau'n cyd-fynd ag ymrwymïadau'r llywodraeth a bod y cymorth sydd ar gael yn cael ei dargedu yn y ffordd fwyaf effeithiol¹⁰.
- 1.8 Yn dilyn yr ymgynghoriad ym mis Tachwedd 2023, cafodd Deddf Cyllid Llywodraeth Leol (Cymru) 2024¹¹ ei chyflwyno i'r Senedd gyda'r nod o wneud y "system ardrethi annomestig yn decach ac yn fwy addas i ddiwallu anghenion a chyflawni blaenoriaethau ar gyfer datblygu busnes yng Nghymru". Mae'r Ddeddf yn cyflawni neu'n ategu'r rhan fwyaf o'r cynigion ar gyfer diwygio ardrethi annomestig a nodir yn yr ymgynghoriad.
- 1.9 Mae Llywodraeth Cymru wedi cael ei lobio gan amrywiol randdeiliaid i ddarparu rhyddhadau ardrethi annomestig, parhau â nhw neu eu gwella, ac i leihau atebolrwydd ardrethi annomestig ar gyfer rhai sectorau. Mynegwyd pryderon hefyd ynghylch dosbarthu'r atebolrwydd rhwng gwahanol rannau o'r sylfaen drethu. Er enghraifft, mae canfyddiad bod gan fusnesau mwy sydd y tu allan i ganol trefi atebolrwydd cymharol fwy fforddiadwy. Efallai nad yw'r canfyddiad hwn yn adlewyrchu maint y rhyddhad y mae busnesau bach ar y stryd fawr yn ei dderbyn.
- 1.10 Yn erbyn y cefndir hwn o ddiddordeb mewn gwella'r system ardrethi annomestig, comisiynwyd Alma Economics i adolygu rhyddhadau ardrethi annomestig yng Nghymru. Prif amcan yr ymchwil hon yw casglu tystiolaeth fel sail i'r gwaith o

⁹ Llywodraeth Cymru. 'Datganiad Ilafar: Diwygio Ardrethi Annomestig'. Mawrth 2022.

¹⁰ Llywodraeth Cymru. 'Diwygio cyfraddau annomestig yng Nghymru'. Chwefror 2023.

¹¹ Senedd Cymru: [Deddf Cyllid Llywodraeth Leol \(Cymru\) 2024](#). Tachwedd 2023.

ddatblygu cyfres o egwyddorion allweddol i lywio newidiadau i ryddhadau ardrethi annomestig yn y dyfodol.

- 1.11 Mae'r ymchwil hon wedi'i strwythuro'n dair elfen. Mae Elfen 1 yn sefydlu'r egwyddorion; Mae Elfen 2 yn asesu gweithrediad ymarferol rhyddhadau a sut y'u gweinyddir gan awdurdodau lleol; ac mae Elfen 3 yn canolbwyntio ar ganfyddiadau o'r rhyddhadau ymhlith talwyr ardrethi a'u cynrychiolwyr. Defnyddir canlyniadau Elfennau 2 a 3 i gadarnhau'r egwyddorion allweddol a bennwyd yn Elfen 1.

Methodoleg

Gweithgareddau ymchwil Efen 1

1.12 Mae gweithgareddau ymchwil Efen 1 wedi canolbwyntio ar ddatblygu a gwerthuso'r egwyddorion. Mae'r gweithgareddau hyn wedi cynnwys:

- **Mapio rhyddhadau ardrethi annomestig:** Cynhaliwyd ymarfer cwmpasu i fapio'r holl ryddhadau ardrethi annomestig sydd ar gael yng Nghymru ar hyn o bryd, i ddeall eu nodweddion a'u nodau amrywiol ac i asesu pa ryddhad oedd o fewn y cwmpas er mwyn eu gwerthuso.
- **Penderfynu ar yr egwyddorion:** Darparodd Llywodraeth Cymru ddogfennau cefndir (fel ymgynghoriadau, datganiadau ysgrifenedig, deddfwriaeth, canllawiau a data) i ni eu hadolygu ochr yn ochr â deunyddiau yr oeddem wedi'u casglu drwy chwiliadau ar-lein. Drwy'r adolygiad desg hwn, fe wnaethom ddatblygu rhestr hir o egwyddorion i'w hystyried ar gyfer gwerthuso rhyddhadau, a gafodd ei chwtogi wedyn drwy ddefnyddio cymwysiadau o faes theori economaidd, ymarfer gwerthuso lefel uchel, a mewnwlediadau yn sgil gwaith ymgysylltu ag arbenigwyr treth, fel y trafodir isod.
- **Cyfweliadau gydag arbenigwyr treth:** Cynhaliwyd cyfweliadau â 12 arbenigwr o'r sector trethiant. Roedd hyn yn cynnwys saith cynrychiolydd o Lywodraeth Cymru ei hun a phum cynrychiolydd o sefydliadau allanol. Darparwyd manylion cyswllt gan Lywodraeth Cymru. Yn y cyfweliadau hyn, cyflwynwyd rhestr o egwyddorion gennym gan gasglu adborth ar eu defnydd i asesu rhyddhadau ardrethi annomestig fel y gallem fireinio'r rhestr o egwyddorion a'u diffiniadau. Mae canllawiau pwnc y cyfweliadau i'w gweld yn Atodiad A.
- **Gwerthusiad o ryddhadau:** Er mwyn sicrhau bod yr egwyddorion yn ymarferol ddefnyddiol, cynhaliwyd gwerthusiad o ryddhadau ardrethi annomestig wedi'u mapio, gan ddatblygu metrigau allweddol i'w defnyddio wrth asesu pob un o'r egwyddorion yn erbyn pob rhyddhad.

Gweithgareddau ymchwil Elfen 2

1.13 Mae gweithgareddau ymchwil Elfen 2 wedi canolbwyntio ar ymarferoldeb gweinyddu rhyddhadau ardrethi annomestig, gan gynnwys yr heriau sy'n wynebu awdurdodau lleol ac arferion gorau. Mae'r gweithgareddau hyn wedi cynnwys:

- **Gweithdai gyda chynrychiolwyr awdurdodau lleol:** Cynhaliwyd pedwar gweithdy ar-lein gyda chynrychiolwyr awdurdodau lleol a oedd yn ymwneud â gweinyddu rhyddhadau ardrethi annomestig, ymhlith cyfrifoldebau eraill. Yn bennaf, roedd hyn yn cynnwys Penaethiaid Refeniw a Budd-daliadau. I gyd, cymerodd 20 o swyddogion a oedd yn cynrychioli 15 awdurdod lleol ran yn y gweithdai. Hyd y gweithdai oedd oddeutu 90 munud ac fe'u cynhaliwyd dros Microsoft Teams. Cafwyd y manylion cyswllt drwy law Llywodraeth Cymru, a chynigiwyd yr opsiwn i bob cyfranogwr fynychu gweithdai yn Gymraeg neu Saesneg. Cafodd gwybodaeth yn Gymraeg ei chasglu a'i dadansoddi gan ymchwilydd Cymraeg.

Gweithgareddau ymchwil Elfen 3

1.14 Mae gweithgareddau ymchwil ar gyfer Elfen 3 wedi canolbwyntio ar ganfyddiadau talwyr ardrethi o ryddhadau, gan gynnwys hyd a lled y cymorth ariannol sydd ar gael, meini prawf cymhwysedd a phrosesau ymgeisio, effeithiau rhyddhadau ardrethi annomestig, a chyfathrebu ag awdurdodau lleol. Mae'r gweithgareddau hyn wedi cynnwys:

- **Arolwg o dalwyr ardrethi:** Buom yn gweithio gyda Beaufort Research i ychwanegu cwestiynau i'r Arolwg Omnibws Busnes. Mae'r arolwg yn cynnwys sampl gynrychioliadol o'r holl fentrau bach a chanolig (BBaCh) sydd wedi'u lleoli ledled Cymru. Cynhelir yr arolwg yn ddwyieithog ac mae'n defnyddio Cyfweliad â Chymorth Cyfrifiadur dros y Ffôn. Cyrhaeddodd yr arolwg 500 o ymatebwyr, ond nid oedd 77 ohonynt yn gweithredu o eiddo, gan roi sampl o 423 o ymatebwyr sy'n rhyngweithio â'r system adrethi annomestig.
- **Grwpiau ffocws a chyfweliadau gyda thalwyr ardrethi:** I gyd, fe wnaethom ymgysylltu â 10 busnes a dau gorff cynrychioliadol yn Elfen 3

drwy un grŵp ffocws, chwe chyfweliad, a dau ymateb e-bost. Digwyddodd yr holl ymgysylltu drwy Microsoft Teams neu dros e-bost. Hyd y grŵp ffocws oedd 90 munud, a pharhaodd y cyfweliadau hyd at 45 munud. Cynigiwyd yr opsiwn i bawb gymryd rhan yn Gymraeg neu Saesneg, gyda phawb yn dewis Saesneg. Roedd y busnesau wedi'u lleoli mewn wyth awdurdod lleol yn y gogledd, y de a'r gorllewin. Roedd y mwyafrif yn cynrychioli sectorau manwerthu, hamdden a lletygarwch, gyda dim ond dau yn cynrychioli elusennau a chyfanwerthu.

Cyfyngiadau methodolegol

- 1.15 Ar gyfer arolwg Beaufort yn Efen 3, mae'r mwyafrif helaeth o ryddhadau a gynrychiolir yn yr ymatebion yn cwmpasu RhAMHLI a Rhyddhad Ardrethi Busnesau Bach. Mae sefydliadau'r sector cyhoeddus a'r trydydd sector hefyd wedi'u heithrio o'r sampl. Mae hyn yn golygu bod y modd y gellir cyffredinolï'r canfyddiadau yng nghyd-destun rhyddhadau eraill yn gyfyngedig. Hefyd, cynhaliwyd yr arolwg cyn y Gyllideb Ddrafft ar gyfer 2025-26 (Rhagfyr 2024)¹², a gallai ailadrodd yr arolwg ar ôl hyn effeithio ar safbwyntiau ynghylch sicrwydd yn benodol. Yn ogystal, wrth ymgysylltu â thalwyr ardrethi ac er gwaethaf strategaethau recriwtio trylwyr, roedd y sampl yn fach ac yn gyfyngedig i fusnesau yn y sectorau manwerthu, hamdden a lletygarwch yn bennaf, gan gyfyngu unwaith eto ar gyffredinolrwydd y canfyddiadau. Trafodir yr heriau oedd yn gysylltiedig â recriwtio ar gyfer y gweithgaredd hwn ym Mhennod 5.
- 1.16 Cafodd y cyfyngiadau hyn yn Efen 3 eu goresgyn yn sgil cadarnhau'r canfyddiadau ar draws pob un o'r tair elfen ymchwil. Er enghraifft, lle y gallai'r canfyddiadau'n ymwneud â sicrwydd yn Efen 3 fod wedi cael eu heffeithio gan amseru'r arolwg, gwyddom o'n hadolygiad desg a'r cyfweliadau gydag arbenigwyr treth yn Efen 1, yn ogystal ag ymgysylltu ag awdurdodau lleol yn Efen 2, y byddai sicrwydd yn egwyddor bwysig beth bynnag. Mae hyn yn dangos nad yw amseriad yr arolwg yn debygol o fod wedi effeithio ar y canfyddiad cyffredinol hwn.

¹² [Llywodraeth Cymru. Datganiad Ysgrifenedig: Cymorth ardrethi annomestig ar gyfer 2025-26.](#)

Menwelediadau Efen 1

Crynodeb o'r canfyddiadau

- Drwy adolygiad desg o'r llenyddiaeth ac ymgysylltu ag arbenigwyr treth, nodwyd pedair egwyddor: (i) symlrwydd a chydymffurfiaeth, (ii) sicrwydd, (iii) digonolrwydd refeniw, a (iv) effeithlonrwydd economaidd.
- Mae'r egwyddorion a nodwyd yn addas ar y cyfan a gellir cymhwyso'r rhan fwyaf ohonynt yn gyson i asesu'r rhyddhadau ardrethi annomestig presennol a ddaw o fewn y cwmpas.
- Mae ansicrwydd ynghylch y baich trethiannol (h.y. pwy yn y pen draw sy'n ysgwyddo'r baich trethiannol rhwng perchennog yr eiddo a meddiannydd yr eiddo) yn effeithio ar y gallu i werthuso effeithlonrwydd economaidd rhai o'r rhyddhadau o fewn y cwmpas. Felly, ni ellir cymhwyso'r egwyddor hon yn gyson i asesu'r rhyddhadau ardrethi annomestig.


Mapio rhyddhadau ardrethi annomestig

- 1.17 Drwy ymarfer cwmpasu a chyda mewnwelediadau pellach gan arbenigwyr treth, fe wnaethom fapio'r holl ryddhadau ardrethi annomestig presennol sydd ar gael yng Nghymru. Roedd hyn yn cynnwys coladu nodweddion allweddol pob rhyddhad, gan gynnwys (i) nodau'r rhyddhad, (ii) buddiolwyr bwriadedig y rhyddhad, (iii) math y rhyddhad (gorfodol neu yn ôl disgrisiwn), (iv) gwerth y rhyddhad, a (v) proses weinyddol.
- 1.18 Mae wyth rhyddhad ardrethi annomestig ar gael yng Nghymru.¹³ O'r wyth hyn, roedd saith ohonynt o fewn y cwmpas i'w gwerthuso a'u hasesu ymhellach. Er i ni ystyried **Rhyddhad Caledi** yn y broses fapio gychwynnol, dewiswyd peidio â'i gynnwys i'w werthuso'n ffurfiol, gan fod y rhyddhad hwn yn ôl disgrisiwn yn llwyr.
- 1.19 Dangosir gwerth gwirioneddol ac amcangyfrifedig yr holl ryddhadau parhaol, gan gynnwys Rhyddhad Ardrethi Busnesau Bach, Rhyddhad Ardrethi Eiddo Gwag, a Rhyddhad Ardrethi Elusennol, yn Ffigur 4. Rhyddhad Ardrethi Busnesau Bach yw'r drutaf ac amcangyfrifir ei fod yn costio £142.8 miliwn yn 2024-25, yna Rhyddhad

¹³ [Busnes Cymru. Ardrethi Busnes yng Nghymru – Canllawiau](#). Awst 2024.

Ardrethi Elusennol, yr amcangyfrifir ei fod yn costio £67.9 miliwn, a Rhyddhad Ardrethi Eiddo Gwag, yr amcangyfrifir ei fod yn costio £32.2 miliwn yn yr un cyfnod.

Ffigur 4. Gwerth rhyddhadau ardrethi annomestig gorfodol (£ mil)¹⁴



- 1.20 Mae rhyddhadau eraill sydd wedi'u mapio, gan gynnwys Rhyddhad Gwelliannau, iteriad cyfredol Rhyddhad Trosiannol (sy'n gysylltiedig ag ailbrisio ardrethi annomestig 2023), a Rhyddhad Rhwydweithiau Gwresogi, yn gymharol newydd a dim ond gwerthoedd amcangyfrifedig sydd ar gael ar gyfer cyfnodau 2023-24 a 2024-25. Nid yw'n bosibl amcangyfrif cost Rhyddhad Gwelliannau, gan y bydd hyn yn dibynnu ar faint o welliannau cymwys sy'n cael eu gwneud. Mae RhAMHLI wedi bod ar gael ar lefelau amrywiol ers 2020-21. Gan fod y rhyddhad yn cael ei weinyddu gan ddefnyddio pwerau disgrisiwn awdurdodau lleol, nid oes data swyddogol ar gost y rhyddhad hwn ar gael fel y mae ar gyfer rhyddhadau gorfodol. Mae cyllideb Llywodraeth Cymru ar gyfer pob blwyddyn mae RhAMHLI wedi'i darparu, yn cynnwys dyraniad i gwmpasu'r gost ddisgwyliedig. Mae ffigurau amcangyfrifedig ar gyfer y rhyddhadau hyn ar gael isod yn Nhabl 1.

¹⁴ [StatsCymru. Ardrethu annomestig, yn ôl disgrifiad rhes NDR \(£ mil\)](#)

Tabl 1. Gwerthoedd rhyddhad amcangyfrifedig ar gyfer rhyddhadau dros dro (2023-24 a 2024-25)¹⁵

1.21 Mae gweddill yr adran hon yn rhoi trosolwg a nodweddion pellach bob un o'r saith rhyddhad a fapiwyd. Darperir trosolwg o'r holl ryddhadau ar ddiwedd Adran 2, yn Nhabl 2.

Rhyddhad Ardrethi Annomestig	Gwerth Rhyddhad Amcangyfrifedig (£ mil) 2023-24	Gwerth Rhyddhad Amcangyfrifedig (£ mil) 2024-25
Rhyddhad Trosiannol	£68,255 ¹⁶	£38,000 ¹⁷
Rhyddhad Rhwydweithiau Gwresogi	Dim data	£1,273 ¹⁸
RhAMHLI	£140,000 ¹⁹	£78,000 ²⁰

1.22 Prif ryddhad Llywodraeth Cymru yw **Rhyddhad Ardrethi Busnesau Bach**. Mae'r rhyddhad hwn wedi'i gynllunio i leihau rhwymedigaethau a gorbenion i fusnesau bach, gan fwriadu eu helpu i ail-fuddsoddi a thyfu. Rhyddhad Ardrethi Busnesau Bach yw'r drutaf, gydag amcangyfrif o £142.8 miliwn am ostyngiadau mewn biliau yn 2024-25, cynnydd o 41% ers 2016-17²¹. Mae hwn yn rhyddhad parhaol a gorfodol, sy'n nodi ei fod yn bodoli bob blwyddyn. Gan fod y rhyddhad yn cael ei gymhwyso'n awtomatig ac yn dibynnu ar fetrigau treth presennol, mae'n gymharol syml i awdurdodau lleol ei weinyddu. Mae cyfyngiadau hefyd ynghlwm wrth wneud cais am y rhyddhad hwn, gan ei gwneud yn haws i dalwyr ardrethi gydymffurfio a leihau'r baich gweinyddol ar awdurdodau lleol (e.e., gan y gall y rhyddhad hwn fod

¹⁵ Sylwch nad yw'r rhyddhad gwelliannau wedi'i gynnwys yn Nhabl 1, gan nad yw'r data sydd ar gael yn gyflawn nac yn ddibynadwy, o ystyried bod rhai awdurdodau lleol wedi darparu amcangyfrifon yn eu ffurflenni. Daw'r data o ddadansoddiad Alma Economics o ddata StatsCymru a data a ddarparwyd gan Lywodraeth Cymru.

¹⁷ [Llywodraeth Cymru. Datganiad Ysgrifenedig: Cymorth ardrethi annomestig ar gyfer 2024-25](#). (2023).

¹⁸ [StatsCymru. Amcangyfrifon ardrethi annomestig yn ôl disgrifiad rhes NDR \(£ mil\)](#)

¹⁹ [Llywodraeth Cymru. Datganiad Ysgrifenedig: Cymorth ardrethi annomestig ar gyfer 2023-24](#) (2022).

²⁰ [Llywodraeth Cymru. Datganiad Ysgrifenedig: Cymorth ardrethi annomestig ar gyfer 2024-25](#) (2023).

²¹ Dadansoddiad Alma Economics o ddata StatsCymru: [StatsCymru. Ardrethu annomestig, yn ôl disgrifiad rhes NDR \(£ mil\)](#)

yn berthnasol i hyd at ddau eiddo i bob awdurdod lleol, sy'n gofyn am lai o groeswiro). Mae rhyddhad ardrethi annomestig yn tueddu i gael y bai pan fydd busnesau bach yn methu, felly ystyrir bod y rhyddhad hwn yn ffordd syml o gefnogi busnesau bach. Fodd bynnag, prin yw'r dystiolaeth ddiffiniol i nodi a yw'r rhyddhad hwn yn newid y dirwedd economaidd yn sylweddol, er enghraifft, drwy gynyddu nifer y busnesau bach.

- 1.23 Mae **Rhyddhad Ardrethi Elusennol** yn cefnogi elusennau a chlybiau chwaraeon amatur cymunedol. Os yw sefydliad elusennol yn feddiannydd eiddo, mae'n gymwys yn awtomatig am ryddhad gorfodol o 80%. Mae gwerth y rhyddhad hwn wedi cynyddu dros amser, gyda £63.9 miliwn wedi'i ddarparu yn 2022-23, cynnydd o 14% ers 2016-17. Mae ychwanegiad o hyd at 20% ychwanegol hefyd ar gael yn ôl disgresiwn yr awdurdod lleol fel rhan o ryddhadau yn ôl disgresiwn, a fyddai'n galluogi hyd at 100% o ryddhad ardrethi annomestig i elusennau.
- 1.24 Mae **Rhyddhad Ardrethi Eiddo Gwag** yn rhyddhad gorfodol, sy'n cynorthwyo perchnogion eiddo sydd ag eiddo gwag. Mae talwyr ardrethi yn derbyn rhyddhad llawn rhag talu ardrethi annomestig am dri neu chwe mis, yn dibynnu ar y math o eiddo. Cafodd y rhyddhad hwn ei etifeddu gan Lywodraeth Cymru o fewn y system drethi cyn datganol, er bod rhai newidiadau wedi'u gwneud ers hynny. Nod natur dros dro (o safbwynt y derbynnydd) y rhyddhad hwn yw lleihau nifer yr eiddo gwag drwy weithredu fel cymhelliant i'w dychwelyd i weithgaredd economaidd cyn gynted â phosibl. Mae gwerth y rhyddhad hwn wedi gostwng dros amser, gyda £33.7 miliwn wedi'i ddarparu yn 2022-23, gostyngiad o 15% ers 2020-21. Bu rhai problemau gyda thalwyr ardrethi yn ceisio hawlio'r rhyddhad sawl gwaith ar gyfer yr un eiddo gwag at ddibenion osgoi ardrethi annomestig. Mae Llywodraeth Cymru wedi ceisio mynd i'r afael â'r ymddygiad hwn drwy ymestyn isafswm y cyfnod meddiannaeth cyn y gallai eiddo fod yn gymwys am gyfnod dilynol o Ryddhad Ardrethi Eiddo Gwag.
- 1.25 Cynigiwyd **RhAMHLI** yn wreiddiol fel mesur brys yn 2020-21 yn sgil pandemig COVID-19 a'r cyfyngiadau symud dilynol, a orfododd llawer o fusnesau yn y sectorau manwerthu, hamdden a lletygarwch i gau. Mae RhAMHLI wedi parhau oherwydd pwysau economaidd parhaus sy'n effeithio ar y mathau hyn o fusnesau,

er na fwriedir iddo fod yn rhyddhad parhaol. Dyrannodd Llywodraeth Cymru £78 miliwn ar gyfer y rhyddhad hwn yn y Gyllideb ar gyfer 2024-25. Cynigiwyd y rhyddhad yn wreiddiol ar 100% (yn 2020-21 a 2021-22), ond ers hynny mae hyn wedi cael ei leihau i 40% o ostyngiad mewn biliau ardrethi annomestig ar gyfer 2024-25, gyda therfyn o £110,000 fesul busnes. Mae'r lleihad hwn wedi arwain at rai cwynion gan dalwyr ardrethi. Nododd y Gyllideb Ddrafft ddiweddar ar gyfer 2025-26 (Rhagfyr 2024)²² y bydd talwyr ardrethi cymwys yn parhau i dderbyn 40% o RhAMHLI drwy gydol 2025-26. Ar hyn o bryd mae'r rhyddhad hwn yn seiliedig ar wneud cais ac mae costau gweinyddol cymharol uchel i awdurdodau lleol ynghlwm ag ef o'i gymharu â rhyddhadau eraill.

- 1.26 Mae **Rhyddhad Gwelliannau** yn rhyddhad cymharol newydd sydd ar gael ers mis Ebrill 2024. Ei nod yw cynorthwyo talwyr ardrethi sy'n buddsoddi mewn gwelliannau i'w busnesau, er bod yr effaith ar ymddygiad talwyr ardrethi yn ansicr ar hyn o bryd. Er mwyn i'r rhyddhad gael ei weithredu, rhaid i fusnesau fodloni dau amod: (i) yr amod gwaith cymhwysol a (ii) yr amod meddiannaeth. Mae'r amod gwaith cymhwysol yn golygu bod yn "rhaid i'r gwaith gwella cymhwysol arwain at newid cadarnhaol yng ngwerth ardrethol yr hereditament er mwyn bod yn gymwys i gael rhyddhad"²³. Mae enghreifftiau o welliannau o'r fath yn cynnwys (i) ychwanegu inswleiddio neu leinin newydd i eiddo heb ei inswleiddio o'r blaen, neu (ii) welliannau neu uwchraddiadau i gyflwr ffisegol yr eiddo (e.e., ychwanegu gwres neu aerdymheru). Mae'r amod meddiannaeth yn ei gwneud yn ofynnol, yn y cyfnod ers i'r gwaith gwella cymhwysol ddechrau, fod yr eiddo wedi parhau i gael ei feddiannu, ac nad yw'r talwr ardrethi wedi newid. Bwriad y rhyddhad yw targedu talwyr ardrethi sy'n parhau i feddiannu ac elwa o'r gwelliant, a dileu'r anghymhellant o welliannau i eiddo sy'n cynyddu'r gwerth ardrethol. Mae'r rhyddhad hwn ond yn berthnasol i'r gwerth cynyddrannol a ychwanegir gan welliannau am gyfnod o 12 mis yn unig, er bod rhai rhanddeiliaid wedi awgrymu ymestyn y cyfnod hwn i 18 neu 24 mis. Nid yw cost y rhyddhad hwn yn hysbys eto, ond disgwylir iddo fod ymhlith y lleiaf costus o'r rhyddhadau.

²² [Llywodraeth Cymru. Datganiad Ysgrifenedig: Cymorth ardrethi annomestig ar gyfer 2025-26.](#)

²³ [Busnes Cymru. Ardrethi Annomestig - Canllaw Rhyddhad Gwelliannau.](#)

- 1.27 Nod **Rhyddhad Trosiannol** yw lliniaru'r trawsnewid o ran cynyddu atebolrwydd yn dilyn ailbrisiad. Mae'r rhyddhad hwn wedi ymddangos ar wahanol ffurfiau dros amser, gydag iteriadau diweddar yn dod i rym yn dilyn yr ailbrisiadau yn 2017 a 2023. Yn dilyn ailbrisiad 2023, cyflwynodd Llywodraeth Cymru²⁴ rhyddhad trosiannol i gynyddu biliau ardrethi annomestig yn raddol dros gyfnod o ddwy flynedd, lle mae talwyr ardrethi yn talu 33% o'u hatebolrwydd ychwanegol yn y flwyddyn gyntaf, 66% yn yr ail flwyddyn, ac yna'n talu'r cynnydd llawn mewn atebolrwydd yn y drydedd flwyddyn. Mae amcangyfrifon ar gyfer y rhyddhad hwn yn awgrymu ei fod werth oddeutu £38 miliwn ar gyfer 2024-25.
- 1.28 Y rhyddhad olaf a gynhwyswyd yn ein hymarfer mapio yw **Rhyddhad Rhwydweithiau Gwresogi**, sef rhyddhad cymharol newydd, ar gael ers mis Ebrill 2024. Mae'r rhyddhad hwn yn rhan o agenda ehangach y llywodraeth i gymell sefydlu rhwydweithiau gwresogi, gan gefnogi datgarboneiddio adeiladau a phontio o danwydd ffosil. Mae rhwydweithiau gwresogi yn cyflenwi ynni thermol o ffynhonnell ganolog i ddefnyddwyr drwy rwydwaith o bibellau. Os defnyddir eiddo annomestig yn gyfan gwbl neu'n bennaf fel rhwydwaith gwresogi sy'n cyflenwi ynni o ffynonellau carbon isel, yna gweithredir rhyddhad o 100%. Amcangyfrifir mai gwerth y rhyddhad hwn ar gyfer blwyddyn ariannol 2024-25 yw £1.3 miliwn.

Tabl 2. Trosolwg o ryddhadau ardrethi annomestig wedi'u mapio

Rhyddhad Ardrethi Annomestig	Disgrifiad	Amserlen a gwerth	Gweinyddiaeth a chyfyngiadau
Rhyddhad Ardrethi Busnesau Bach	Rhyddhad gorfodol ar gyfer eiddo â gwerth ardrethol o hyd at £12,000, a chymorth wedi'i deilwra ar gael i ddarparwyr gofal plant a swyddfeydd post.	Rhyddhad parhaol. Mae eiddo â gwerth ardrethol o hyd at £6,000 yn cael rhyddhad o 100%. Mae eiddo â gwerth ardrethol rhwng £6,001 a £12,000 yn derbyn y rhyddhad ar sail raddedig o 100% i 0%.	Caiff ei gymhwyso'n awtomatig. Mae'r rhyddhad yn gyfyngedig yn ôl gwerth ardrethol eiddo o £12,000 ar gyfer busnesau bach. Uchafswm o ddau eiddo fesul busnes ym mhob awdurdod lleol.

²⁴ [Llywodraeth Cymru. Datganiad Ysgrifenedig: Cymorth ardrethi annomestig ar gyfer 2023-24](#) (2022).

Rhyddhad Ardrethi Annomestig	Disgrifiad	Amserlen a gwerth	Gweinyddiaeth a chyfyngiadau
Rhyddhad Ardrethi Eiddo Gwag	Rhyddhad gorfodol o 100% am y tri mis cyntaf (chwe mis ar gyfer eiddo diwydiannol) mae'r eiddo'n wag, ac ar ôl hynny mae ardrethi llawn yn berthnasol oni bai bod eithriadau penodol yn cael eu bodloni.	Rhyddhad parhaol (o safbwynt gweinyddu). Rhyddhad o 100% yn ystod y cyfnod o dri neu chwe mis, yn dibynnu ar y math o eiddo.	Mae'n rhaid i berchnogion eiddo hysbysu'r awdurdod lleol pan fydd yr eiddo'n wag, ac yna mae'r rhyddhad yn cael ei gymhwyso'n awtomatig.
RhAMHLI	Rhyddhad dros dro yn ôl disgrisiwn i fusnesau cymwys yn y sectorau manwerthu, hamdden a lletygarwch, gyda chanrannau amrywiol yn seiliedig ar y flwyddyn ariannol.	Dechreuodd y rhyddhad yn ystod pandemig COVID-19 (2020-21). Mae'r gwerth wedi newid flwyddyn ar ôl blwyddyn, 100% i ddechrau, a nawr (2024-25) mae'n rhyddhad o 40%.	O'r blaen roedd yn awtomatig, ond mae bellach ar gael drwy gais yn unig. Mae terfyn o £110,000 ar swm y rhyddhad fesul busnes.
Rhyddhad Gwelliannau	Rhyddhad dros dro rhag cynnydd mewn atebolrwydd ardrethi annomestig oherwydd gwelliannau i eiddo.	Mae'r rhyddhad ar gael o 2024-25 tan 2028-29. Bydd talwyr ardrethi yn elwa o ryddhad am 12 mis, ar ôl cwblhau gwelliannau cymhwysol. Mae swm y rhyddhad yn cyfateb i'r atebolrwydd cynyddol a fyddai fel arall yn cael ei ysgwyddo yn y 12 mis cyntaf ar ôl i'r gwelliannau gael eu gwneud.	Mae angen i dalwyr ardrethi fodloni dau amod: (1) "gwaith cymhwysol" – lle mae gwelliannau'n arwain at newid cadarnhaol yn y gwerth ardrethol a (2) "amod meddiannaeth" - yn y cyfnod ers i'r gwaith cymwys ddechrau, sef bod yr eiddo wedi parhau i fod wedi'i feddiannu ac nad yw'r talwr ardrethi wedi newid. Os bodlonir yr amodau, cymhwysir y rhyddhad yn awtomatig.

Rhyddhad Ardrethi Annomestig	Disgrifiad	Amserlen a gwerth	Gweinyddiaeth a chyfyngiadau
Rhyddhad Trosiannol	Rhyddhad dros dro gorfodol yn dilyn ailbrisio'r ardrethi annomestig, a ddaeth i rym ar 1 Ebrill 2023. Bydd unrhyw gynnydd mewn atebolrwydd dros £300 yn cael ei gyflwyno'n raddol dros gyfnod o ddwy flynedd.	Dros dro am gyfnod o ddwy flynedd (2023-24 a 2024-25). Bydd talwyr ardrethi yn talu 33% o'u hatebolrwydd ychwanegol yn y flwyddyn gyntaf a 66% o'u hatebolrwydd ychwanegol yn yr ail flwyddyn, cyn talu'r atebolrwydd llawn yn y drydedd flwyddyn ar ôl yr ailbrisiad.	Caiff ei gymhwyso'n awtomatig. Nid yw cynnydd mewn atebolrwydd sy'n llai na £300 yn gymwys.
Rhyddhad Ardrethi Elusennol	Rhyddhad gorfodol ar gyfer eiddo sy'n cael ei feddiannu gan elusennau neu glybiau chwaraeon amatur cymunedol.	Rhyddhad gorfodol o 80%, gyda'r potensial o ychwanegu at 100% drwy ryddhad yn ôl disgrisiwn (mae hyd at 20% yn ôl disgrisiwn yr awdurdod lleol).	Caiff ei gymhwyso'n awtomatig.
Rhyddhad Rhwydweithiau Gwresogi	Rhyddhad gorfodol ar gyfer eiddo sy'n cael eu defnyddio'n gyfan gwbl neu'n bennaf fel rhwydweithiau gwresogi sy'n cyflenwi ynni thermol a gynhyrchir o ffynonellau carbon isel. Bwriad y rhyddhad hwn yw cefnogi datblygiad a thwf rhwydweithiau gwresogi.	Mae rhyddhad ar gael o 2024-25 tan 2034-35. Mae'n cynnig rhyddhad o 100%.	Bydd angen i dalwyr ardrethi wneud cais a chadarnhau eu bod yn bodloni'r amod carbon isel.

Drafftio'r egwyddorion

- 1.29 Yn yr ail weithgaredd yn Elfen 1 nodwyd a detholwyd egwyddorion i werthuso'r rhyddhadau a ddewiswyd o'r gweithgaredd mapio blaenorol. Fe wnaethom adolygu

nifer o ffynonellau perthnasol yn trafod egwyddorion trethiant optimaidd a'r rhesymeg dros yr egwyddorion hynny, a nodir yn y testun isod. Yn seiliedig ar yr adolygiad hwn, nodwyd pum egwyddor gennym. Mae llawer o'r egwyddorion a nodwyd yn y llenyddiaeth yn canolbwyntio ar egwyddorion ar gyfer gwerthuso trethi – nid rhyddhadau trethi. Gyda hynny mewn golwg, mae ein rhesymeg ar gyfer datblygu egwyddorion ar gyfer rhyddhadau treth yn gofyn yn benodol am ymagwedd sy'n newid y pwyslais, gan feddwl yn systematig am bwrpas y rhyddhad a sut mae'n effeithio ar ymddygiad busnes a'r economi ehangach. Trafodir pob un o'r egwyddorion a nodwyd yn fanwl isod, gyda throsolwg llawn o'r egwyddorion a'u metrigau perthnasol i'w gweld ar ddiwedd Adran 3 yn Nhabl 3.

Symrlwydd a chydymffurfiaeth

- 1.30 Mae symrlwydd yn cyfeirio at ryddhad ardrethi annomestig sy'n hawdd eu deall a'u defnyddio ar gyfer talwyr ardrethi gyda chostau gweinyddu isel i awdurdodau lleol (gweler e.e., Mirrlees, 2011)²⁵. Y rhyddhad symlaf yw un sy'n cael ei gymhwyso'n awtomatig i fil treth, sy'n golygu nad oes baich gweinyddol ar y busnes i wneud cais na phrofi eu bod yn gymwys i gael rhyddhad. Hon hefyd yw'r gost weinyddol isaf i'r awdurdodau lleol. Po fwyaf beichus mae'r cais neu'r broses weinyddol ar gyfer rhyddhad, y lleiaf syml fydd ei weithredu. Mae cydymffurfio yn canolbwyntio ar sicrhau bod rhyddhad ardrethi yn cyrraedd y buddiolwyr arfaethedig tra'n atal camddefnydd o'r system rhyddhad (gweler e.e., y Sefydliad ar gyfer Cydweithrediad a Datblygiad Economaidd, 2014)²⁶. Mae diffyg cydymffurfio yn y system drethi yn lleihau refeniw treth, a gall targedu rhyddhadau achosi cymhellion ar gyfer newid mewn ymddygiad. Ystyrir symrlwydd a chydymffurfiaeth gyda'i gilydd oherwydd bydd rhyddhad sy'n hawdd ei ddeall a'i weinyddu yn tueddu i greu llai o gyfleoedd i dalwyr ardrethi ac awdurdodau lleol wneud camgymeriadau (h.y. diffyg cydymffurfio).

²⁵ Mirrlees, J. (2011). [Tax by Design: The Mirrlees Review](#). Sefydliad Astudiaethau Cyllid / Gwasg Prifysgol Rhydychen. [Saesneg yn unig]

²⁶ Y Sefydliad ar gyfer Cydweithrediad a Datblygiad Economaidd (2014), [Addressing the Tax Challenges of the Digital Economy](#), OECD/G20 Base Erosion and Profit Shifting Project, OECD Publishing, Paris. [Saesneg yn unig]

- 1.31 Roedd yr arbenigwyr treth y cyfwelwyd â nhw yn gyffredinol yn cytuno â symrlwydd a chydymffurfiaeth fel egwyddorion er mwyn asesu rhyddhad ardrethi annomestig. Nododd rhai cyfweleion y gellir ystyried symrlwydd ar wahanol lefelau, er enghraifft symrlwydd rhyddhad unigol yn erbyn symrlwydd y system gyfan o ryddhadau. Nododd ychydig o gyfweleion hefyd, er bod symrlwydd yn bwysig, gall fod yn anodd ei wireddu'n ymarferol.

Sicrwydd

- 1.32 Mae sicrwydd yn cyfeirio at y graddau y gall busnesau ddibynnu ar ddyfodol rhyddhad, gan ganiatáu iddynt gynllunio a chyllidebu'n effeithiol ar gyfer cyllid yn y dyfodol (gweler e.e., Piper, 2020)²⁷. Ymhlith yr agweddau ar sicrwydd sy'n bwysig i'w hystyried mae (i) amserlen y rhyddhad – pa mor hir fydd y rhyddhad yn para? a (ii) swm y rhyddhad – beth yw gwerth ariannol y rhyddhad, a pha mor sefydlog yw'r swm hwn? Po fwyaf o sicrwydd sy'n perthyn i ryddhad, y mwyaf y gall busnesau wireddu gwerth llawn y rhyddhad a gwneud y penderfyniadau ariannol gorau posibl mewn ffordd sy'n annog effeithlonrwydd ac sy'n hyrwyddo gweithgareddau sy'n fuddiol yn economaidd ac yn gymdeithasol.
- 1.33 Ar y cyfan, cytunodd yr arbenigwyr treth y cyfwelwyd â nhw â sicrwydd fel egwyddor i asesu rhyddhad ardrethi annomestig. Nodwyd ei fod yn hanfodol i fusnesau, yn enwedig pan fydd busnesau yn gallu cynllunio ymhellach na blwyddyn ariannol ar y tro. Rhybuddiai rhai cyfweleion er mwyn i ryddhad weithio'n ymarferol, fod angen hyblygrwydd hefyd i ymateb i ffactorau allanol (ee, pandemig a chyfyngiadau cyllidebol). Fodd bynnag, nid yw hyn o reidrwydd yn gwrthdaro â sicrwydd fel egwyddor, ar yr amod bod llywodraethau'n cynnig tryloywder ynghylch sut y byddant yn ymateb i argyfyngau.

Digonolrwydd refeniw

- 1.34 Mae digonolrwydd refeniw yn canolbwyntio ar yr egwyddor dreth bod yn rhaid i unrhyw system dreth gynhyrchu digon o refeniw i gefnogi gwariant y llywodraeth (gweler e.e., Llywodraeth yr Alban, 2021)²⁸. Gan ymestyn y rhesymeg hon i ryddhadau, mae rhyddhad ardrethi yn cynrychioli incwm treth a ildwyd a dylid ond

²⁷Piper, J. (2020), [Certainty in Tax](#). [Saesneg yn unig]

²⁸ Llywodraeth yr Alban (2021). [Framework for Tax 2021](#). [Saesneg yn unig]

ei gynnig os oes gan y llywodraeth ddigon o refeniw i fforddio'r rhyddhad. Fel dangosydd procsi i amcangyfrif digonolrwydd refeniw rhyddhad, rydym yn rhannu cyfanswm gwerth y rhyddhad blynyddol â'r ardrethi gros sy'n daladwy. Fel hyn, gallwn fynegi gwerth pob rhyddhad fel cyfran o gyfanswm y refeniw ardrethi annomestig a ddisgwylir pe na bai unrhyw ryddhad yn cael ei ddarparu. Bydd rhyddhadau drutach yn cymryd cyfran uwch o'r ardrethi gros sy'n daladwy ac felly o bosibl yn llai digonol o ran refeniw.

- 1.35 Yn gyffredinol roedd yr arbenigwyr treth y cyfwelwyd â nhw yn cytuno â digonolrwydd refeniw fel egwyddor i asesu rhyddhadau ardrethi annomestig. Awgrymodd rhai cyfweleion ystyriaethau perthnasol eraill hefyd, a oedd yn cynnwys ystyried costau gweinyddol yn ogystal â chostau tymor byr yn erbyn costau tymor hir a manteision y rhyddhadau.

Effeithlonrwydd economaidd

- 1.36 Mae effeithlonrwydd economaidd yn cyfeirio at leihau'r modd mae ardrethi yn ystumio'r farchnad mewn economi sydd fel arall yn effeithlon (gweler e.e. y Sefydliad Astudiaethau Cyllid, 2019)²⁹. Mewn egwyddor, mae'r ystumiadau hyn yn arwain at economi lai effeithlon, gan greu "hollt" rhwng prynwyr a gwerthwyr, gan arwain at arwyddion o darfu ar y farchnad o ran ymddygiadau cynhyrchu a defnydd a llai o weithgaredd economaidd, incwm a ffyniant cyffredinol (gweler ee, Gandhi et al., 1987)³⁰. Byddai rhyddhad treth economaidd effeithlon yn lleihau'r ystumio yn y dreth, yn osgoi cyflwyno ystumiadau newydd, ac yn sicrhau'r budd mwyaf o allanoldebau cadarnhaol y rhyddhad. Er enghraifft, mae Rhyddhad Rhwydweithiau Gwresogi yn mynd i'r afael â methiant cyfredol yn y farchnad ac yn creu cymhellion i yrru busnesau tuag at ffynonellau ynni mwy ecogyfeillgar, gan arwain felly at allanoldebau cadarnhaol o ran lleihau allyriadau carbon.
- 1.37 Ar y cyfan, roedd yr arbenigwyr treth y cyfwelwyd â nhw yn gefnogol i effeithlonrwydd economaidd fel egwyddor. Rhoddodd y cyfweleion enghreifftiau o ble y gellir defnyddio rhyddhadau treth i gymell buddsoddiadau busnesau i annog

²⁹ Adam, S. Y Sefydliad Astudiaethau Cyllid (IFS). (2019) [Submission to Treasury Committee inquiry: The impact of business rates on business](#). [Saesneg yn unig]

³⁰ Gandhi et al., (1987). [Pennod 9: Tax Structure for Efficiency and Supply-Side Economics in Developing Countries](#). [Saesneg yn unig]

datblygiad economaidd, er enghraifft drwy barthau menter sydd wedi'u heithrio rhag treth, mentrau ynni gwyrdd, a Rhyddhad Rhwydweithiau Gwresogi.

- 1.38 **Baich ardrethi annomestig.** Yr hyn sy'n allweddol i asesu effeithlonrwydd economaidd ardrethi annomestig yw ystyried y baich economaidd (h.y., pwy sy'n ysgwyddo'r baich trethiannol ar ôl caniatáu am addasiadau mewn prisiau). Er mwyn darparu enghraifft eglurhaol ar gyfer treth lle mae hyn yn fwy syml, ar gyfer TAW mae'r baich cyfreithiol gyda busnesau, ond mae'r baich economaidd yn gyffredinol yn disgyn ar ddefnyddwyr gan fod TAW yn cael ei "throsglwyddo" iddynt drwy'r prisiau.
- 1.39 Ar gyfer ardrethi annomestig, yn achos eiddo rhent, y cwestiwn yw a yw'r baich economaidd yn gorwedd gyda'r busnesau sy'n meddiannu'r eiddo (ac sy'n atebol am ardrethi annomestig) neu gyda pherchnogion yr eiddo hwnnw (h.y., a yw presenoldeb ardrethi annomestig yn arwain at ostyngiad mewn rhenti). Ar gyfer perchen-feddianwyr, y cwestiwn yw, a yw gwerth presennol ardrethi annomestig ar yr eiddo yn y dyfodol yn cael ei adlewyrchu mewn pris is a delir am yr eiddo, sydd unwaith eto'n golygu bod perchennog y busnes yn cael iawndal am bresenoldeb ardrethi annomestig. Mae diffyg tystiolaeth gyffredinol ar y pwnc hwn, ond mae'r swm bach o dystiolaeth³¹ dda yn awgrymu bod mwyafrif baich ardrethi annomestig ar berchnogion yr eiddo yn hytrach nag ar fusnesau sy'n gweithredu yn yr eiddo hwnnw.
- 1.40 Mae baich ardrethi annomestig yn arbennig o bwysig wrth asesu effeithlonrwydd economaidd. Os bydd mwyafrif baich economaidd ardrethi annomestig yn gorwedd gyda landlordiaid yn hytrach na thenantiaid, bydd y rhyddhadau hyn o fudd i berchnogion eiddo yn hytrach na busnesau sy'n gweithredu o'r eiddo hynny. Os yw baich ardrethi annomestig yn bennaf ar y busnes, yna deuir i gasgliad gwahanol iawn.
- 1.41 Fel y nodwyd uchod, nid yw'r llenyddiaeth gyfredol ar faich ardrethi annomestig yn cynnig ateb clir ynghylch a yw'r baich economaidd yn y pen draw yn disgyn ar berchnogion busnes neu ar landlordiaid. Oherwydd diffyg sylfaen dystiolaeth ddofn,

³¹ Bond, Stephen, et al. "[Who pays business rates?](#)" Fiscal Studies 17.1 (1996): 19-35. [Saesneg yn unig]

byddwn yn asesu effaith rhyddhadau ardrethi annomestig ar effeithlonrwydd economaidd yn seiliedig ar faich uchel ar denantiaid ac yna ar faich uchel ar landlordiaid.

Tegwch

- 1.42 Yr egwyddor derfynol yw tegwch, sy'n ffactor hanfodol wrth werthuso tegwch cyffredinol yn y system dreth (gweler e.e., y Sefydliad Astudiaethau Cyllid, 2019)³². Dylai system dreth ofalu am degwch ar lefel unigol. Mae hyn yn cynnwys tegwch fertigol, lle mae talwyr ardrethi unigol sydd â gallu uwch i gyfrannu yn talu o leiaf yr un fath â'r rhai sy'n llai abl i gyfrannu, a thegwch llorweddol, lle mae talwyr ardrethi unigol mewn amgylchiadau ariannol tebyg yn cael eu trin yn gyfartal. Fodd bynnag, nid yw'r cysyniad hwn yn ddilys i fusnesau, gan nad yw maint y busnes yn cynnig gwybodaeth am amgylchiadau'r unigolion dan sylw. Gallai busnes bach fod yn eiddo i unigolyn cyfoethog, ond gallai gweithwyr mewn busnes mawr fod yn ennill yr isafswm cyflog. O ran ardrethi annomestig, caiff hyn ei gymhlethu ymhellach gan ansicrwydd ynghylch y baich trethiannol. Os yw'r baich trethiannol yn disgyn ar y landlord, mae'n fwy tebygol byth y gall rhyddhadau sydd wedi'u targedu at helpu busnesau llai, fod o fudd i unigolion cyfoethog. Felly, er bod tegwch yn egwyddor bwysig i'w hystyried wrth ystyried y system dreth a rhyddhad gyffredinol, nid yw'n egwyddor briodol ar gyfer gwerthuso rhyddhadau treth sy'n effeithio ar fusnesau yn unig.

Tabl 3. Trosolwg o'r egwyddorion

Egwyddor	Disgrifiad	Metrigau i werthuso rhyddhadau yn erbyn yr egwyddorion
Symrlrwydd a chydymffurfiaeth	Dylai'r system rhyddhad treth fod yn syml i'w deall a'i gweinyddu ac, felly, yn hawdd i dalwyr ardrethi gydymffurfio â hi. Dylid cynnwys mesurau i atal camddefnydd a sicrhau bod hyn	A yw'r rhyddhad yn cael ei gymhwyso'n awtomatig, neu a oes angen gwneud cais amdano? Os oes angen gwneud cais, pa mor feichus yw'r broses

³² Adam, S. Y Sefydliad Astudiaethau Cyllid (IFS). (2019) [Submission to Treasury Committee inquiry: The impact of business rates on business](#). [Saesneg yn unig]

Egwyddor	Disgrifiad	Metrigau i werthuso rhyddhadau yn erbyn yr egwyddorion
	yn cyrraedd y buddiolwyr arfaethedig.	ymgeisio? Er enghraifft, pa mor hir mae'n ei gymryd i wneud cais, a oes llawer o waith papur, ac a yw'n bosibl gwneud cais ar-lein? Ceisiadau awtomatig yw'r rhai symlaf a hawsaf i gydymffurfio â nhw.
Sicrwydd	Dylai talwyr ardrethi ddeall yn glir faint o ardrethi sy'n ddyledus ganddynt, pryd mae'r ardrethi hyn yn ddyledus, a sut y gallai hyn newid yn y dyfodol. Dylai rhyddhadau fod yn rhagweladwy fel nad oes unrhyw newid annisgwyl mewn cyllid.	Beth yw amserlen y rhyddhad – ai dros dro neu barhaol ydyw? A yw'r amserlen ar gyfer y rhyddhad yn glir? (e.e. pa mor hir y bydd yn para) Beth yw gwerth ariannol y rhyddhad, ac a fydd y swm hwn yn sefydlog dros amser?
Digonolrwydd refeniw	Dylai polisïau rhyddhad treth gydbwyso darparu rhyddhad gyda sicrhau bod y llywodraeth yn dal i allu cynhyrchu refeniw digonol.	Cyfrifir hyn yn feintiol gan ddefnyddio gwerth rhyddhad fel cyfran o'r ardrethi gros sy'n daladwy. Mae'r graddio ar gyfer y categori hwn yn seiliedig ar (i) maint y gyfran, (ii) a yw'r gwerth yn cynyddu dros amser, a (iii) argaeledd data.
Effeithlonrwydd economaidd	Dylai rhyddhadau treth annog gweithgareddau economaidd sydd o fudd i'r economi. Mae hyn yn cynnwys cynnig cymhellion, arbedion, neu weithgareddau economaidd cynhyrchiol heb achosi ystumiadau yn y farchnad.	A yw'r rhyddhad yn annog gweithgareddau economaidd, a/neu a yw'n mynd i'r afael ag ystumiad neu fethiant presennol yn y farchnad? Mewn rhai achosion, bydd hyn yn dibynnu ar faich economaidd yr ardrethi annomestig (h.y., pwy

Egwyddor	Disgrifiad	Metrigau i werthuso rhyddhadau yn erbyn yr egwyddorion
		sy'n ysgwyddo baich yr ardrethi) rhwng perchennog eiddo a meddianwyr. Ar gyfer rhyddhadau tymor byr (e.e. rhyddhad gwelliannau neu ryddhad trosiannol) a rhyddhadau lle nad oes tenant (e.e., Rhyddhad Ardrethi Eiddo Gwag), bydd llai o bwyslais ar y baich trethiannol (os o gwbl) wrth asesu effeithlonrwydd economaidd y rhyddhadau.

Gwerthusiad rhagarweiniol o ryddhadau ardrethi annomestig

- 1.43 Er mwyn asesu perthnasedd ac ymarferoldeb yr egwyddorion drafft, rydym wedi cynnal gwerthusiad o'r rhyddhadau ardrethi annomestig. Ar gyfer y gwerthusiad fe aethom ati i ddefnyddio system sgorio pum pwynt yn amrywio o "Uchel lawn" i "Isel lawn", a ddisgrifir ymhellach yn Nhabl 4. Gan ddefnyddio'r metrigau a ddisgrifir yn Nhabl 3, cymharir y rhyddhadau â'i gilydd o fewn un egwyddor. Er enghraifft, ar gyfer yr egwyddor digonolrwydd refeniw, bydd y rhyddhad sy'n darparu'r digonolrwydd refeniw mwyaf yn cael sgôr "Uchel lawn," tra bydd y rhyddhad sy'n darparu'r digonolrwydd refeniw lleiaf yn derbyn sgôr "Isel lawn." Mae hyn yn golygu bod y sgôr yn gymharol â'r rhyddhadau eraill o fewn pob categori. Mewn achosion lle na allem asesu effeithlonrwydd economaidd oherwydd ansicrwydd ynghylch baich trethiannol, rydym wedi defnyddio "Ansicr" i nodi na ellid pennu sgôr. Roedd hyn yn wir am Ryddhad Ardrethi Busnesau Bach, RhAMHLI, a Rhyddhad Ardrethi Elusenol. Sylwch fod hwn yn brawf o gysyniad yn hytrach na gwerthusiad llawn, ac mae'r dosbarthiadau'n seiliedig ar ddehongliadau goddrychol o'r rhyddhadau.
- 1.44 Mae'r system sgorio yn seiliedig ar y canlynol:

Tabl 4. Categoriâu sgorio gwerthuso rhagarweiniol

Uchel iawn	Uchel	Niwtral	Isel	Isel iawn
------------	-------	---------	------	-----------

Tabl 5. Gwerthusiad rhagarweiniol o ryddhadau ardrethi annomestig gan ddefnyddio'r egwyddorion

Rhyddhad Ardrethi Annomestig	Symlrwydd a Chydymffurfiaeth	Sicrwydd	Digonolrwydd Refeniw	Effeithlonrwydd economaidd
Rhyddhad Ardrethi Busnesau Bach	Uchel iawn • Fe'i cymhwysir yn awtomatig i filiau ardrethi annomestig. • Nid yw hyn yn gofyn am unrhyw faich ychwanegol ar dalwyr ardrethi a phrin yw'r baich gweinyddol ar awdurdodau lleol.	Uchel iawn • Rhyddhad parhaol. • Cynigir gwerth y rhyddhad ar raddfa symudol yn dibynnu ar y gwerth ardrethol. • Mae'r trothwyon wedi aros yn gyson dros amser.	Isel iawn • Yn 2024-25, gwerth amcangyfrife dig y rhyddhad hwn oedd 10.3% o'r ardrethi gros oedd yn daladwy, yr uchaf o'r holl ryddhadau. • Mae'r gyfran hon hefyd wedi cynyddu dros amser, gyda'r gyfran yn werth 8.5% yn 2016-17. • Da o ran argaeledd data.	Ansicr • Os yw baich yr ardrethi annomestig yn disgyn yn bennaf ar feddianwyr eiddo ac mae'n caniatáu i'r holl fusnesau fuddsoddi, efallai fod y rhyddhad hwn wedi'i dargedu'n dda er mwyn cefnogi busnesau bach a chanolig. • Os yw'r baich yn disgyn yn bennaf ar landlordiaid, mae'r rhyddhad yn debygol o fod yn aneffeithiol ac, felly, yn ddefnydd aneffeithlon o adnoddau.

Rhyddhad Ardrethi Annomestig	Symrlwydd a Chydymffurfiaeth	Sicrwydd	Digonolrwydd Refeniw	Effeithlonrwydd economaidd
Rhyddhad Ardrethi Eiddo Gwag	Isel	Uchel iawn	Uchel	Isel
	- Rhaid hysbysu awdurdodau lleol pan fydd yr eiddo'n wag. - Mae'r rhyddhad yn awtomatig unwaith y bydd wedi'i gymeradwyo. - Bu rhywfaint o hanes o gamddefnyddio'r rhyddhad hwn.	- Rhyddhad parhaol. - Mae'r gwerth a'r amserlen (3 neu 6 mis) wedi aros yn sefydlog ers blynnyddoedd lawer.	- Yn 2024-25, gwerth amcangyfrife dig y rhyddhad hwn oedd 2.3% o'r ardrethi gros oedd yn daladwy, sef yr isaf ond dau o'r rhyddhadau. - Mae'r gwerth hwn wedi gostwng dros amser, gyda'r gyfran yn cynrychioli 2.9% yn 2016-17. - Da o ran argaeledd data.	- Gall y rhyddhad hwn annog perchnogion eiddo i adael eiddo yn wag yn hirach nag y byddent wedi'i wneud heb y rhyddhad. - Gallai gael effaith ar yr economi leol ac aneffeithlonrwydd economaidd drwy ddargyfeirio adnoddau llywodraeth leol oherwydd hanes o gamddefnyddio'r rhyddhad.

Rhyddhad Ardrethi Annomestig	Symrlwydd a Chydymffurfiaeth	Sicrwydd	Digonolrwydd Refeniw	Effeithlonrwydd economaidd
RhAMHLI	Isel	Isel iawn	Isel	Ansicr
	Roedd y rhyddhad yn awtomatig o'r blaen, ond bellach rhaid gwneud cais amdano.	- Mesur dros dro ac nid yw'n glir pa mor hir y bydd rhyddhad yn para. - Mae swm y rhyddhad wedi newid dros y blynyddoedd, o 100% i 75%, i 40% erbyn hyn (2024-25).	- Yn 2024-25, gwerth amcangyfrife dig y rhyddhad hwn oedd 5.6% o'r ardrethi gros sy'n daladwy, sef yr uchaf ond un o'r rhyddhadau. - Cyfyngedig o ran argaeledd data.	- Os yw baich yr ardrethi annomestig yn disgyn yn bennaf ar feddianwyr eiddo, mae'n caniatáu i bob busnes dyfu. Os yw baich yr ardrethi annomestig yn disgyn yn bennaf ar feddianwyr eiddo, yna gallai'r rhyddhad hwn fod yn fuddiol iawn i sector sydd wedi wynebu trafferthion yn ystod pandemig COVID-19 a'r blynyddoedd dilynol. - Os yw'r baich yn disgyn yn bennaf ar landlordiaid, mae'r rhyddhad yn debygol o fod yn aneffeithiol ac, felly, yn ddefnydd aneffeithlon o adnoddau.

Rhyddhad Ardrethi Annomestig	Symrlwydd a Chydymffurfiaeth	Sicrwydd	Digonolrwydd Refeniw	Effeithlonrwydd economaidd
Rhyddhad Gwelliannau	Isel • Caiff ei gymhwyso'n awtomatig pan fo'r "amod gwaith cymhwysol" a'r "amod meddiannaeth" wedi'u bodloni. • Mae'r baich gweinyddol yn disgyn ar Asiantaeth y Swyddfa Brisio a'r awdurdod lleol, nid ar y talwr ardrethi.	Niwtral • Rhyddhad dros dro a gyflwynwyd yn ddiweddar a fydd yn para tan fis Mawrth 2029. Nid yw'n glir a fydd y rhyddhad yn cael ei ymestyn. • Mae swm y rhyddhad yn dibynnu ar werth y gwelliannau.	Uchel • Disgwylir i werth y rhyddhad fod ymhlith yr isaf, ond nid yw'r data ar gael eto.	Uchel iawn • Mae'r rhyddhad wedi'i gynllunio i leihau'r anghymhelliad y gallai busnesau ei wynebu wrth ystyried uwchraddio neu ehangu eu heiddo annomestig.

Rhyddhad Ardrethi Annomestig	Symrlwydd a Chydymffurfiaeth	Sicrwydd	Digonolrwydd Refeniw	Effeithlonrwydd economaidd
Rhyddhad Trosiannol	Uchel iawn • Fe'i cymhwysir yn awtomatig i filiau ardrethi annomestig. • Nid yw hyn yn gofyn am unrhyw faich ychwanegol ar dalwyr ardrethi a phrin yw'r baich gweinyddol ar awdurdodau lleol.	Niwtral • Rhyddhad dros dro. • Cyflwynwyd y rhyddhad yn 2023 yn dilyn ailbrisio eiddo annomestig. • Bydd yn para am ddwy flynedd, ac mae'r swm fesul blwyddyn yn bendant.	Uchel • Gwerth amcangyfrife dig y rhyddhad hwn oedd 2.9% o'r ardrethi gros sy'n daladwy ar gyfer 2024-25. • Mae hyn yn ostyngiad o'i gymharu â'r amcangyfrif o 5.2% ar gyfer y flwyddyn flaenorol.	Uchel • Yn helpu busnesau i reoli eu llif arian.

Rhyddhad Ardrethi Annomestig	Symrlwydd a Chydymffurfiaeth	Sicrwydd	Digonolrwydd Refeniw	Effeithlonrwydd economaidd
Rhyddhad Ardrethi Elusennol	Uchel • Fe'i cymhwysir yn awtomatig i filiau ardrethi annomestig. • Nid oes angen unrhyw faich ychwanegol ar gyfer talwyr ardrethi ac yn gyffredinol mae'n faich gweinyddol isel ar awdurdodau lleol, er bod angen rhywfaint o waith gwirio statws elusennau.	Uchel iawn • Rhyddhad parhaol. • Mae'r rhyddhad gorfodol o 80% a'r 20% yn ôl disgresiwn (hyd at 100%) wedi bod yn sefydlog ers sawl blwyddyn.	Niwtral • Gwerth y rhyddhad hwn oedd 4.9% o'r ardrethi gros oedd yn daladwy yn 2024-25. • Mae'r gyfran hon wedi bod yn gymharol sefydlog dros amser, gan aros ar oddeutu 5%. • Ar gyfer 2024-25, amcangyfrifir mai'r rhyddhad hwn yw'r uchaf ond dau o ran cyfran.	Ansicr • Os yw baich yr ardrethi annomestig yn bennaf ar feddianwyr eiddo, efallai fod y rhyddhad hwn wedi'i dargedu'n dda i gefnogi sefydliadau elusennol ac endidau nid-er-elw. • Os yw'r baich yn disgyn yn bennaf ar landlordiaid, mae'r rhyddhad yn debygol o fod yn aneffeithiol ac, felly, yn ddefnydd aneffeithlon o adnoddau.


Rhyddhad Ardrethi Annomestig	Symrlwydd a Chydymffurfiaeth	Sicrwydd	Digonolrwydd Refeniw	Effeithlonrwydd economaidd
Rhyddhad Rhwydweithi au Gwresogi	Isel - Ni chaiff ei gymhwyso'n awtomatig. - Mae angen gwneud cais i gadarnhau bod yr amod carbon isel wedi ei fodloni.	Niwtral - Mesur dros dro sydd ar gael tan 2035; nid yw'n glir a yw'r newid yn barhaol ar ôl y dyddiad hwn. - Gwerth y rhyddhad yw 100%, heb unrhyw newid ar gyfer y cyfnod hwn.	Uchel iawn - Gwerth amcangyfrife dig y rhyddhad oedd 0.1% o'r ardrethi gros sy'n daladwy ar gyfer 2024-25. - Fodd bynnag, gan mai rhyddhad newydd yw hwn, dim ond amcangyfrif yw hwn, ac nid oes unrhyw flynyddoedd eraill ar gael. - Byddai hyn ymhlith y gyfran leiaf o'r holl ryddhadau.	Uchel Cefnogi effeithlonrwydd economaidd drwy gymell datblygu ac ehangu rhwydweithiau gwresogi carbon isel ar gyfer lliniaru newid yn yr hinsawdd.

1.45 Mae rhyddhadau awtomatig yn tueddu i fod yn symlach ac yn haws cydymffurfio â nhw, fel yn achos Rhyddhad Ardrethi Busnesau Bach, Rhyddhad Trosiannol, a Rhyddhad Ardrethi Elusennol. Mae rhyddhadau a nodweddir gan broses ymgeisio neu faich gweinyddol ychwanegol ar dalwyr ardrethi yn cael eu graddio fel rhai llai ffafriol yn erbyn egwyddor symrlwydd a chydymffurfiaeth, yn enwedig Rhyddhad Rhwydweithiau Gwresogi, a allai olygu cadarnhad o gymhwysedd parhaus bob blwyddyn. Mae'r cymhwysedd ar gyfer Rhyddhad Gwelliannau yn seiliedig ar fodloni dau amod, fel yr aseswyd gan Asiantaeth y Swyddfa Brisio a'r awdurdod lleol, cyn y gellir rhoi rhyddhad i'r talwr ardrethi. Mae hyn yn gosod beichiau gweinyddol

ychwanegol ar y sefydliadau gweinyddu. Cafwyd rhai problemau gyda'r Rhyddhad Ardrethi Eiddo Gwag yn ymwneud â chydymffurfiaeth, gan fod hanes cyffredin o gamddefnydd bwriadol. Mae RhAMHLI hefyd wedi'i raddio'n llai ffafriol yn erbyn yr egwyddor hon, gan fod y broses ymgeisio wedi newid o fod yn awtomatig, gan ei gwneud hi'n fwy cymhleth ac anodd i dalwyr ardrethi elwa ohono.

- 1.46 Rhyddhadau parhaol sydd â gwerth sefydlog yw'r rhai mwyaf sicr, gan eu bod yn caniatáu i fusnesau gyllidebu a chynllunio ar gyfer eu dyfodol. Mae'r rhyddhadau hyn yn cynnwys Rhyddhad Ardrethi Busnesau Bach, Rhyddhad Ardrethi Eiddo Gwag, a Rhyddhad Ardrethi Elusenol. Rhyddhadau dros dro lle nad oes dyddiad gorffen clir, neu nad yw'n glir beth fydd eu gwerth yn y blynyddoedd i ddod yw'r rhai sy'n peri'r ansicrwydd mwyaf i fusnesau, gan ei gwneud hi'n anodd cynllunio'n ariannol. RhAMHLI yw'r rhyddhad isaf o ran yr egwyddor sicrwydd, gan nad yw'n hysbys pa mor hir y bydd yn para, ac mae'r swm wedi newid o ryddhad o 100% yn 2020-21 a 2021-22, i 50% yn 2022-23, 75% yn 2023-24, a 40% yn 2024-25. Ystyrir bod rhyddhadau dros dro sydd ag amserlen a gwerth clir, er enghraifft y Rhyddhad Rhwydweithiau Gwresogi, Rhyddhad Gwelliannau neu Ryddhad Trosiannol, yn fwy sicr na'r RhAMHLI. Fodd bynnag, maent yn llai sicr na'r rhyddhadau parhaol, nad oes ganddynt ddyddiad gorffen.
- 1.47 Ein procsi ar gyfer pa mor ddigonol o ran refeniw yw'r rhyddhad, yw'r gyfran o'r cyfraddau gros sy'n daladwy am flwyddyn ariannol a ildwyd wrth ddarparu rhyddhad. Dangosir y dangosydd procsi hwn yn Ffigur 5 isod, gan ddefnyddio'r data mwyaf dibynadwy sydd ar gael ar gyfer pob rhyddhad. Rhyddhad Ardrethi Busnesau Bach yw'r rhyddhad drutaf ac felly'r rhyddhad sydd lleiaf digonol o ran refeniw, tra disgwylir i Ryddhad Rhwydweithiau Gwresogi a Rhyddhad Gwelliannau gynnig y digonolrwydd refeniw mwyaf, er nad oes data ar gael eto.

Ffigur 5. Dangosydd digonolrwydd refeniw - costau rhyddhad fel cyfran o'r ardrethi gros sy'n daladwy (amcangyfrifon 2024-25)



- 1.48 Ystyrir bod rhyddhadau sy'n anelu at annog gweithgarwch economaidd neu sy'n targedu methiant yn y farchnad yn fwy effeithlon yn economaidd. Mae Rhyddhad Gwelliannau yn annog talwyr ardrethi i fuddsoddi yn eu heiddo a gwella eu busnes, drwy fynd i'r afael â'r anghymhellant sy'n codi wrth ystyried gwelliannau a allai arwain at fil ardrethi annomestig uwch. Ystyrir bod rhyddhadau a allai greu ystumiadau yn y farchnad neu leihau gweithgarwch economaidd yn llai effeithlon yn economaidd. Gallai Rhyddhad Ardrethi Eiddo Gwag leihau gweithgarwch economaidd, gan y gellir annog perchnogion eiddo i adael eiddo'n wag am fwy o amser nag y byddent fel arall heb y rhyddhad, yn hytrach na chwilio am denantiaid. Er enghraifft, yn hytrach na gadael yr eiddo'n wag am fis, efallai y cânt eu cymell i gadw'r eiddo yn wag am gyfnod llawn y rhyddhad (tri neu chwe mis, yn dibynnu ar y math o fusnes). Gallai hyn arwain dros dro at lai o fusnesau a gweithgarwch economaidd a fyddai'n bodoli fel arall pe bai'r eiddo wedi'i feddiannu. Yn olaf, fel y soniwyd uchod, ar gyfer rhai rhyddhadau, mae'r graddau y maent yn cael effaith ar effeithlonrwydd economaidd yn dibynnu ar faich economaidd ardrethi annomestig.

Menwelediadau Elfen 2

Crynodeb o'r canfyddiadau

- Yn gyffredinol, cytunodd yr awdurdodau lleol â'r pedair egwyddor a awgrymwyd ar gyfer asesu rhyddhadau ardrethi annomestig: symlrwydd a chydymffurfiaeth, sicrwydd, digonolrwydd refeniw ac effeithlonrwydd economaidd.
- Roeddent yn unfryd o'r farn bod gan fusnesau ymwybyddiaeth isel o ryddhadau, yn enwedig RhAMHLI (ar ôl symud o broses awtomatig i broses sy'n seiliedig ar gais) a Rhyddhad Trosiannol.
- Yr her allweddol a nodwyd gan awdurdodau lleol gyda'r system ryddhadau bresennol yw asesu cymhwysedd. Disgrifiwyd diffyg adnoddau sylweddol o ran asesu meddiannaeth at ddibenion masnachol.
- Ymhlith y meysydd a awgrymir i'w gwella mae (i) blaenoriaethu adnoddau ar gyfer asesu cymhwysedd, (ii) addysgu talwyr ardrethi ynghylch rhannu gwybodaeth gywir, (iii) diddymu Rhyddhad Trosiannol nawr bod ailbrizio ardrethi annomestig yn digwydd yn amlach, a (iv) cryfhau opsiynau adfer ar gyfer adennill ardrethi annomestig.

Gweithdai awdurdodau lleol

- 1.49 Ar ôl mapio'r rhyddhadau a drafftio'r egwyddorion yn Elfen 1, cynhaliwyd pedwar gweithdy gyda chynrychiolwyr awdurdodau lleol ym mis Hydref 2024. Roedd cynrychiolwyr yr awdurdodau lleol a oedd yn bresennol yn ymwneud â gweinyddu rhyddhadau ardrethi annomestig, ymhlith cyfrifoldebau eraill. Penaethiaid Refeniw a Budd-daliadau oedd y mynychwyr yn bennaf, gyda rhai awdurdodau lleol yn anfon dau swyddog i weithdai. I gyd, cymerodd 20 o swyddogion a oedd yn cynrychioli 15 awdurdod lleol ran yn y gweithdai. Cafwyd y manylion cyswllt drwy law Llywodraeth Cymru.
- 1.50 Cynigiwyd yr opsiwn i bob cyfranogwr fynychu gweithdai yn Gymraeg neu Saesneg, gan arwain at un gweithdy Cymraeg a thri gweithdy Saesneg. Cafodd gwybodaeth yn Gymraeg ei chasglu a'i dadansoddi gan ymchwilydd Cymraeg.

- 1.51 Pwrpas y gweithdai hyn oedd deall agweddau ymarferol gweinyddu rhyddhadau ardrethi annomestig, gan gynnwys yr heriau sy'n wynebu awdurdodau lleol a'r arferion gorau. Bwydodd ein gwaith yn Elfen 1 y drafodaeth yn Elfen 2. Mae'r canllawiau pwnc a ddefnyddiwyd yn y gweithdai i'w gweld yn Atodiad B; cafodd y rhain eu llywio gan ddau gyfweiliad cwmpasu gyda Phenaethiaid Refeniw a Budd-daliadau. Mae'r canllaw pwnc ar gyfer y cyfweiliadau cwmpasu hefyd i'w weld yn Atodiad B.

Egwyddorion a ddefnyddiwyd i asesu'r rhyddhadau ardrethi annomestig

- 1.52 Dangoswyd yr egwyddorion a amlinellir ym Mhennod 3 (Mewnwelediadau Elfen 1) i gynrychiolwyr yr awdurdodau lleol a fynychodd y grwpiau ffocws. Yr egwyddorion hyn yw (i) symlrwydd a chydymffurfiaeth, (ii) sicrwydd, (iii) digonolrwydd refeniw, ac (iv) effeithlonrwydd economaidd. Pan ofynnwyd iddynt, croesawyd yr egwyddorion hyn yn gyffredinol gan y cyfranogwyr a siaradodd am y pwnc hwn a mynegwyd eu bod yn cytuno â nhw. Wrth groesawu'r egwyddorion hyn, fe wnaeth y cyfranogwyr y sylwadau cyffredinol a grynhoir isod.
- 1.53 **Symlrwydd a chydymffurfiaeth:** Roedd cyfranogwyr y grwpiau ffocws i gyd yn cytuno y dylai'r rhyddhadau fod yn syml, ond roedd rhai yn dadlau y dylid symleiddio'r rhyddhadau ymhellach i sicrhau bod talwyr ardrethi yn eu deall. Roedd rhai yn dadlau bod cymhlethdod gwahanol ryddhadau yn golygu nad yw esbonio sut mae rhyddhad ardrethi annomestig wedi'i gymhwyso i fil talwyr ardrethi yn hawdd nac yn bosibl bob amser.
- 1.54 **Sicrwydd:** Roedd cyfranogwyr y grwpiau ffocws o'r farn bod sefydlogrwydd a chysondeb rhyddhadau yn hynod bwysig i dalwyr ardrethi allu cynllunio ar gyfer y dyfodol. Nodwyd nad yw awdurdodau lleol, pan ofynnir iddynt, yn gallu rhoi gwybod i fusnesau am ddyfodol rhyddhadau ardrethi annomestig penodol.
- 1.55 **Digonolrwydd refeniw:** Roedd cyfranogwyr grwpiau ffocws yn cydnabod pwysigrwydd yr egwyddor hon, o ystyried rôl ardrethi annomestig wrth ariannu gwasanaethau lleol.
- 1.56 **Effeithlonrwydd economaidd:** Cytunodd cyfranogwyr y grŵp ffocws â phwysigrwydd yr egwyddor hon ond nodwyd y gall rhyddhadau, mewn rhai

achosion, greu ystumiadau annisgwyl sy'n lleihau effeithlonrwydd economaidd. Er enghraifft, mae Rhyddhad Ardrethi Busnesau Bach yn caniatáu i rai busnesau bach sy'n gwneud elw dalu llai o ardrethi annomestig nag elusennau bach.

Ymwybyddiaeth talwyr ardrethi o'r rhyddhadau

- 1.57 Ar draws y pedwar grŵp ffocws, nododd y cyfranogwyr fod talwyr ardrethi yn tueddu i fod ag ymwybyddiaeth isel o ryddhadau ardrethi annomestig. Yng ngeiriau un awdurdod lleol, "mae'r rhan fwyaf o dalwyr ardrethi yn edrych ar y llinell waelod ar eu bil – ac os nad yw'n rhy wael neu os yw'n debyg i'r llynedd, byddant yn ei dalu. Dydyn nhw ddim o reidrwydd yn edrych ar bob llinell yn fanwl."
- 1.58 Roedd cynrychiolwyr awdurdodau lleol yn aml yn nodi gwahaniaeth o ran yr ymwybyddiaeth o ryddhad ardrethi annomestig rhwng busnesau mawr a bach, gyda busnesau bach yn fwy tebygol o fod yn anymwybodol o'r rhyddhadau ac yn llai tebygol o fynd ar ôl rhyddhadau y mae angen gwneud cais ar eu cyfer. Mae busnesau mwy, ar y llaw arall, yn aml yn contractio cyngor cyfreithiol i sicrhau eu bod yn derbyn yr holl ryddhadau y maent yn gymwys ar eu cyfer. Yr enghraifft fwyaf cyffredin a godwyd gan swyddogion oedd bod busnesau mawr yn aml yn hawlio Rhyddhad Ardrethi Eiddo Gwag, tra bod busnesau bach yn llai tebygol o wneud hynny.
- 1.59 Nodwyd RhAMHLI gan lawer fel y rhyddhad y mae busnesau llai yn llai ymwybodol ohono. Nodwyd bod y newid o weinyddu RhAMHLI yn awtomatig i'r talwyr ardrethi yn gorfod gwneud cais amdano, yn gryn her. Rhoddodd awdurdodau lleol esboniadau manwl o sut maent yn annog ceisiadau am RhAMHLI, gan gynnwys ymweld â busnesau ac anfon llythyrau i eiddo annomestig, ond dywedwyd bod ceisiadau'n parhau i fod yn is na'r disgwyl. Roedd rhai swyddogion felly yn galw am ddiwygio'r RhAMHLI i ganiatáu i'r awdurdod lleol bennu cymhwysedd yn awtomatig, ond rhybuddiodd eraill fod rhyddhadau a ddyfernir yn awtomatig yn arwain at ddiffyg ymgysylltu pellach gan drethdalwyr. Tynnodd dau swyddog awdurdod lleol – mewn grwpiau ffocws gwahanol – sylw at y ffaith bod ganddynt gynlluniau rhyddhad yn ôl disgresiwn pwrpasol sy'n gofyn am geisiadau a bod nifer ceisiadau talwyr ardrethi ar gyfer y rhain yn parhau i fod yn isel iawn er gwaethaf ymdrechion sylweddol gan yr awdurdod lleol i gynyddu ymwybyddiaeth.

- 1.60 Nododd cynrychiolwyr awdurdodau lleol fod yr ymwybyddiaeth o ryddhadau eraill hefyd yn isel. Amlygodd llawer y diffyg ymwybyddiaeth o Ryddhad Trosiannol, a all arwain at ddiffyg ymwybyddiaeth gan dalwyr ardrethi o'r ffaith y bydd eu bil ardrethi annomestig yn cynyddu yn y blynyddoedd dilynol. Disgrifiodd awdurdodau lleol eu bod yn derbyn galwadau ffôn gan fusnesau yn gofyn pam mae eu bil ardrethi annomestig wedi cynyddu gan nad oeddent yn ymwybodol eu bod yn derbyn Rhyddhad Trosiannol, sy'n cymryd amser ac adnoddau i'w esbonio.

Asesu cymhwysedd talwyr ardrethi am ryddhadau

- 1.61 Dywedodd cynrychiolwyr awdurdodau lleol fod y ffurflenni cais am ryddhadau – fel Rhyddhad Ardrethi Eiddo Gwag a Rhyddhad Ardrethi Elusennol – wedi'u cynllunio i fod yn syml iawn.
- 1.62 Y brif her a nodwyd gan holl gynrychiolwyr yr awdurdodau lleol wrth weinyddu rhyddhadau yw asesu a yw eiddo wedi'u meddiannu at ddibenion masnachol. Gan fod Rhyddhad Ardrethi Eiddo Gwag yn cael ei ystyried yn llai hael na Rhyddhad Ardrethi Busnesau Bach a RhAMHLI, mae yna gymhellant i berchnogion eiddo osgoi hysbysu'r awdurdod lleol pan ddaw prydles i ben a daw'r eiddo'n wag. Soniodd yr awdurdodau lleol nad oes ganddynt yr adnoddau i ymchwilio i weld a yw eiddo masnachol yn cael ei ddefnyddio at y dibenion a hawliwyd. Disgrifiwyd hefyd y diffyg rhannu data a chymorth gan Dŷ'r Cwmnïau i asesu dilysrwydd busnesau, fel her.
- 1.63 Yn y pen draw, canfu'r grwpiau ffocws mai'r brif her i'r awdurdodau lleol yw asesu a yw eiddo wedi'i feddiannu ai peidio pan nad oes ganddynt yr adnoddau i archwilio eiddo yn ôl yr angen, yn hytrach nag asesu cymhwysedd talwyr ardrethi ar gyfer rhai rhyddhadau. Esboniodd un cynrychiolydd awdurdod lleol: "Rydyn ni bob amser yn gweithio gyda thameidiau. Prin y galla i feddwl am achos lle dw i wir yn gwybod pryd mae rhywun wedi symud allan, pryd mae eu les wedi dod i ben, pwy yw'r perchennog, a phryd dechreuodd y brydles newydd – dydyn ni jyst ddim yn cael hyn".
- 1.64 Serch hynny, nodwyd heriau eraill sy'n gysylltiedig â chymhwysedd – gan gynnwys rhai sgil-ffeithiau'r brif her a amlinellir uchod – gan awdurdodau lleol. Mae'r rhain wedi'u crynhoi isod ar gyfer pob rhyddhad.

- 1.65 **RhAMHLI:** Nododd awdurdodau lleol fod y rhan fwyaf o geisiadau am RhAMHLI yn syml, gyda gwybodaeth gywir yn cael ei darparu gan dalwyr ardrethi yn eu ceisiadau. Y tu hwnt i gynyddu ymwybyddiaeth o'r cynllun a'r ceisiadau (a drafodir uchod), y brif her a nodwyd gan awdurdodau lleol yw ansicrwydd wrth benderfynu a yw busnes yn gymwys. Yn ystod pandemig COVID-19, dehonglwyd y diffiniad o fanwerthu, hamdden a lletygarwch yn eang i gynnwys llawer o fusnesau, gydag un cynrychiolydd awdurdod lleol yn nodi "dechreuon ni ddyfarnu rhyddhadau, ond pe byddem wedi gwybod ein bod yn dal i fod yn defnyddio'r un meini prawf bum mlynedd yn ddiweddarach neu beth bynnag, gellid bod wedi rhoi mwy o amser i bwylo a meddwl ar y pryd". Mewn ymgais i gynnal cysondeb ar draws awdurdodau lleol Cymru, mae swyddogion yn rhannu eu hasesiadau cymhwysedd ar gyfer y RhAMHLI gyda'i gilydd dros e-bost. Dadleuodd y cyfranogwyr nad yw canllawiau Llywodraeth Cymru yn cynnwys pob math posibl o fusnes.
- 1.66 **Rhyddhad Ardrethi Elusennol:** Ar draws y grwpiau ffocws, mynegodd awdurdodau lleol bryderon bod "niferoedd mawr" o adeiladau gwag yn cael eu gosod i elusennau twyllodrus, sydd ond yn defnyddio cyfran fach o'r eiddo. Mae'r cynllun hwn yn caniatáu i eiddo fod yn gymwys i gael Rhyddhad Ardrethi Elusennol yn hytrach na'r Rhyddhad Ardrethi Eiddo Gwag, sy'n llai hael. Yn aml, nid yw'r elusennau hyn wedi'u cofrestru gyda'r Comisiwn Elusennau, gan eu bod yn honni bod eu trosiant yn is na'r trothwy blyneddol o £5,000 y flwyddyn. Mewn rhai achosion, mynegodd y cyfranogwyr bryderon y gallai fod gan elusennau gysylltiadau anffurfiol â'u landlordiaid, a allai arwain at drefniadau a gynlluniwyd i osgoi talu ardrethi annomestig. Her arall a godwyd gan rai cyfranogwyr yw bod rhai elusennau llai, sy'n cael eu rhedeg gan wirfoddolwyr, yn ei chael hi'n anodd gwneud cais am y rhyddhad ac, felly, yn gwneud camgymeriadau go iawn, sy'n gofyn am adnoddau gan yr awdurdod lleol i'w datrys.
- 1.67 **Rhyddhad Ardrethi Busnesau Bach:** Cododd cynrychiolwyr awdurdodau lleol ddwy her allweddol o ran asesu cymhwysedd ar gyfer Rhyddhad Ardrethi Busnesau Bach. Mae'r cyntaf yn ymwneud unwaith eto ag eiddo gwag, gan mai dim ond ar gyfer eiddo a feddiannir y mae Rhyddhad Ardrethi Busnesau Bach ar gael, nad yw'n cynnwys yr amser sydd ei angen er mwyn addasu eiddo ar gyfer anghenion busnes newydd. Disgrifiodd y cyfranogwyr eiddo oedd yn parhau i fod yn gymwys i gael

Rhyddhad Ardrethi Busnesau Bach drwy gydol cyfnod pontio rhwng bod yn siop trin gwallt a chaffi, er ei fod yn glir bod yr eiddo yn wag am beth amser ar gyfer y gwaith adnewyddu. Dywedodd awdurdodau lleol nad oes ganddyn nhw'r adnoddau i fynd i'r afael â'r math yma o osgoi ond bod y refeniw sy'n cael ei golli yn gymharol fach. Yr ail her a godwyd gan swyddogion yw bod rhai talwyr ardrethi yn osgoi cyfyngiad aml-eiddo Rhyddhad Ardrethi Busnesau Bach drwy greu cwmnïau coeg neu gofrestru eiddo gyda busnes newydd o dan enw ffrind neu aelod o'r teulu. Disgrifiodd rhai cyfranogwyr ddiffyg adnoddau i fynd i'r afael â'r math hwn o osgoi, ond gan ddadlau hefyd y gallai Tŷ'r Cwmnïau rannu data i asesu cyfreithlondeb busnesau yn fwy effeithiol ac effeithlon.

- 1.68 **Rhyddhad Ardrethi Eiddo Gwag:** Yn ogystal ag effeithiau canlyniadol y systemau presennol ar gyfer cofrestru ac arolygu eiddo masnachol gwag a ddisgrifir uchod, cododd rhai cynrychiolwyr awdurdodau lleol heriau pellach gyda'r Rhyddhad Ardrethi Eiddo Gwag. Her allweddol a nodwyd gan un awdurdod lleol yw nad yw natur amserlen gyfyngedig Rhyddhad Ardrethi Eiddo Gwag yn berthnasol i adeiladau rhestredig. Mae hyn yn golygu bod perchnogion yr adeiladau hyn yn derbyn rhyddhad ardrethi annomestig llawn, sy'n cymell ceisiadau twyllodrus am statws adeiladau rhestredig.
- 1.69 **Rhyddhadau eraill:** Ni thrafodwyd y rhyddhadau eraill o fewn y cwmpas – Rhyddhad Gwelliannau, Rhyddhad Trosiannol, a Rhyddhad Rhwydweithiau Gwresogi – yn fanwl, yn bennaf oherwydd y nifer isel o geisiadau a'r prosesau gweinyddu awtomatig.

Rhyddhadau ardrethi annomestig ac adnoddau awdurdodau lleol

- 1.70 Gofynnwyd i gynrychiolwyr yr awdurdodau lleol hefyd ddisgrifio'r agweddau mwyaf dwys o ran adnoddau wrth weinyddu rhyddhadau ardrethi annomestig. Soniodd y cyfranogwyr eu bod yn ei chael hi'n anodd asesu dyddiadau dechrau a gorffen meddiannaeth (a ddisgrifir uchod). Yr agwedd fwyaf dwys o ran amser yw datrys anghydfodau rhwng landlordiaid a'u tenantiaid, sy'n dadlau pryd y daeth tenantiaeth i ben ac, felly, pwy sy'n gorfod talu ardrethi annomestig. Nodwyd hefyd fod y gwaith o asesu a yw busnesau'n gymwys i gael rhyddhad penodol (gan gynnwys y terfyn aml-eiddo ar gyfer Rhyddhad Ardrethi Busnesau Bach) ac a yw busnesau'n gweithredu

mewn sectorau sy'n gymwys ar gyfer RhAMHLI hefyd yn dasgau sy'n drwm o ran adnoddau.

- 1.71 Er bod cymorth ariannol y llywodraeth wedi cynyddu dros nifer o flynyddoedd³³, roedd yr awdurdodau lleol o'r farn eu bod wedi profi lleihad mewn termau real o ran y gefnogaeth, sydd hefyd wedi cyd-daro â heriau yng nghapasiti'r gweithlu – gydag awdurdodau lleol yn methu â phenodi arolygwyr treth lleol ar ôl ymddeoliad neu'n gorfod annog diswyddiadau gwirfoddol (gweler e.e., Ifan a Sion, 2019)³⁴. Mae hyn yn golygu bod gallu awdurdodau lleol i asesu eiddo ac arolygu cymhwysedd am ryddhadau wedi gostwng. Mewn achosion eithafol, mae hyn yn golygu nad yw awdurdodau lleol yn gallu adolygu na herio'r wybodaeth a ddarparwyd iddynt gan dalwyr ardrethi – gydag un cyfranogwr yn nodi nad yw eu hawdurdod yn ymddangos fel "pe bai gennym yr adnoddau i'w hadolygu [ceisiadau rhyddhad ardrethi annomestig], yn sicr ers y tair neu bedair blynedd diwethaf. [...] Mae'r syniad o'u hadolygu y tu hwnt i ni ar hyn o bryd".
- 1.72 Yn ogystal â heriau asesu cymhwysedd, disgrifiodd cynrychiolwyr awdurdodau lleol agweddau eraill oedd hefyd yn ddwys o ran adnoddau yng nghyd-destun gweinyddu rhyddhad ardrethi annomestig. O'r rhain, codwyd tair prif her:
- 1.73 Yn gyntaf, disgrifiodd y cyfranogwyr sut y gwnaeth y newidiadau i'r ffordd y cafodd unedau eiddo cyfagos eu trin at ddibenion ardrethi annomestig, effeithio ar gymhwysedd ar gyfer Rhyddhad Ardrethi Busnesau Bach, gan gynyddu'r llwyth gwaith i swyddogion awdurdodau lleol. Yn gysylltiedig â hyn, disgrifiodd swyddogion yr agweddau sy'n ddwys o ran adnoddau o safbwynt asesu cymhwysedd ar gyfer rhyddhadau unedau storio unigol o fewn parciau storio mawr. Hynny yw, yr anawsterau o ran cadw golwg ar fanylion rhentwyr unedau storio tymor byr pan fydd y rhentwr yn newid yn aml.
- 1.74 Yn ail, dywedodd awdurdodau lleol ar draws sawl grŵp ffocws fod ceisiadau Archwilio Cymru am ddata yn ddwys iawn o ran adnoddau, yn enwedig gan fod ffocws y ceisiadau'n amrywio'n sylweddol o flwyddyn i flwyddyn ac yn cael eu

³³ StatsWales. 2024. [Standard spending assessments and central government support, Wales](#) [Saesneg yn unig]

³⁴ Ifan and Sion. 2019. [Cut to the bone? An analysis of Local Government finances in Wales, 2009-10 to 2017-18 and the outlook to 2023-24.](#) [Saesneg yn unig]

gwneud gyda dim ond ychydig wythnosau o rybudd. Er enghraifft, roedd cais eleni – yn ôl rhai swyddogion – yn gofyn i awdurdodau lleol wirio a yw eiddo wedi'i feddiannu neu a yw'n wag ar gyfer Rhyddhad Ardrethi Eiddo Gwag, ac yn ôl un swyddog, byddai hyn yn gofyn am "fyddin o bobl allan ar lawr gwlad" i'w gwirio o fewn terfynau amser Archwilio Cymru. Dywedodd swyddog awdurdod lleol arall fod Archwilio Cymru yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau lleol ddarparu data â llaw yn hytrach na derbyn adroddiadau data system sydd yr un mor gywir.

- 1.75 Yn drydydd, disgrifiodd llawer o awdurdodau lleol yr heriau gyda'r systemau meddalwedd a ddefnyddir i weinyddu rhyddhadau ardrethi annomestig. Dywedwyd bod yr amserlen rhwng cyhoeddi rhyddhad newydd a'i weithredu yn aml yn rhy fyr yng Nghymru, sy'n gosod "disgwyliad afrealistig" ar gyflenwyr meddalwedd i ymgorffori newidiadau cymhleth i ryddhadau ardrethi annomestig o fewn ychydig wythnosau neu fisoedd. Nodwyd bod gweithredu'r Rhyddhad Trosiannol a'r Rhyddhad Rhwydweithiau Gwresogi yn enghreifftiau o'r her hon, gyda rhai awdurdodau lleol yn disgrifio oedi wrth filio talwyr ardrethi neu ail-filio busnesau a dderbyniodd filiau ardrethi annomestig anghywir. Felly, roedd yr awdurdodau lleol yn galw am gyfnodau amser hirach ar gyfer newidiadau i ryddhadau ardrethi annomestig. Yn ogystal â'r her hon, disgrifiodd cyfranogwyr yr heriau a achoswyd gan Swyddfa'r Asiantaeth Brisio yn ôl-ddyddio newidiadau i werth ardrethol eiddo – ac nad yw'r systemau meddalwedd yn gallu gweithredu hyn yn awtomatig. Felly, mae hyn yn gofyn am waith llaw gan swyddogion awdurdodau lleol ac yn aml bydd angen cryn dipyn o gyswllt â thalwyr ardrethi, sy'n derbyn newidiadau ôl-weithredol annisgwyl i'w biliau ardrethi annomestig.

Cymhlethdodau a rhyngweithiadau rhwng rhyddhadau

- 1.76 Gofynnwyd i awdurdodau lleol ddisgrifio sut y maent yn rheoli cymhlethdodau o ran gweinyddu rhyddhadau lluosog ar gyfer busnes cymwys a disgrifio sut mae gwahanol ryddhadau yn rhyngweithio â'i gilydd. Rhoddodd y cyfranogwyr ddarlun cymysg mewn ymateb i'r cwestiwn hwn, gydag un grŵp ffocws yn cytuno "nad oes unrhyw beth arbennig o anodd wrth ddelio â busnes sy'n gymwys i gael mwy nag un rhyddhad". Dywedodd awdurdodau lleol eraill fod talwyr ardrethi yn aml yn mynegi

ansicrwydd ynghylch sut mae biliau ardrethi annomestig yn cael eu cyfrifo pan fyddant yn gymwys i gael sawl rhyddhad.

Arferion gorau a meysydd i'w gwella ar gyfer gweinyddu rhyddhadau

- 1.77 Pan ofynnwyd iddynt drafod ffyrdd ymlaen i gryfhau prosesau ar gyfer asesu a yw talwyr ardrethi yn gymwys i gael rhai rhyddhadau ardrethi penodol, canolbwyntiodd cynrychiolwyr awdurdodau lleol ar y meysydd a ddisgrifir isod.
- 1.78 Dywedodd rhai cynrychiolwyr awdurdodau lleol fod ymdrechion i gynyddu'r nifer sy'n derbyn rhyddhadau – yn enwedig RhAMHLI – wedi tynnu adnoddau oddi ar waith asesu cymhwysedd. Felly, gellid ail-flaenoriaethu gwaith asesu cymhwysedd drwy ddad-flaenoriaethu tasgau eraill sy'n ddwys o ran amser.
- 1.79 Galwodd awdurdodau lleol eraill am anogaeth i dalwyr ardrethi ddarparu gwybodaeth gywir yn brydlon, yn enwedig o ran a yw'r eiddo wedi'i feddiannu, gydag un cyfranogwr yn nodi bod "angen tipyn o addysgu [ar dalwyr ardrethi]. Mae'n rhaid i chi ddweud wrth eich awdurdod lleol pan fyddwch yn symud i mewn. [...] Mae'n rhaid i chi ddweud wrth y Cyngor bod eich busnes yn gweithredu".
- 1.80 Yn ogystal â'r newidiadau a awgrymir i asesu cymhwysedd talwyr ardrethi, awgrymodd swyddogion newidiadau ehangach i ryddhad ardrethi annomestig. Y newid cyntaf a awgrymwyd oedd dileu Rhyddhad Trosiannol yn sgil y cynnydd yn amllder y broses o ailbrisio ardrethi annomestig, o bum mlynedd i dair blynedd, gan ddadlau y gall Rhyddhad Trosiannol fod yn gymhleth i'w weinyddu, ac nid yw'r talwyr ardrethi yn deall pam mae eu biliau'n cynyddu o ganlyniad i Ryddhad Trosiannol yn lleihau neu'n dod i ben, gan nad yw'n berthnasol rhagor.

Sylwadau ehangach

- 1.81 Galwodd cynrychiolwyr awdurdodau lleol hefyd am gryfhau'r opsiynau sydd ar gael i adennill ardrethi annomestig, gan gynnwys drwy rannu rhagor o ddata gan Lywodraeth Cymru, Tŷ'r Cwmnïau, a CThEF (HMRC). Y brif ffordd o gryfhau'r opsiynau adennill, yn ôl rhai, fyddai caniatáu i awdurdodau lleol adennill ardrethi annomestig heb eu talu a herio ceisiadau talwyr ardrethi drwy dribiwnlysoedd yn hytrach na Llysoedd Ynadon. Byddai hyn yn lleihau cost ffioedd cyfreithiol i herio

pobl sy'n osgoi ardrethi annomestig, gan sicrhau bod y broses yn gyson â'r hyn a ddefnyddir i adennill treth gyngor sydd heb ei thalu mewn tribiwnlysoedd.

- 1.82 Tynnodd nifer o gyfranogwyr sylw hefyd at y ffaith bod refeniw ardrethi annomestig o wahanol awdurdodau lleol yn cael ei "gyfuno" yn hytrach na'i wario ar anghenion awdurdodau lleol unigol. Nid yw hyn yn cymell awdurdodau lleol unigol i fuddsoddi yn eu prosesau asesu cymhwysedd a'u gwella. Nododd un cyfranogwr: "Pam byddai awdurdod yn mynd y tu hwnt i'r gofyn? Oherwydd welwch chi ddim manteision o hyn os gwnaethoch chi rywfaint o waith rhagweithiol wrth leihau rhyddhadau". Dadl cynrychiolydd yr awdurdod lleol hwn oedd y dylai Llywodraeth Cymru ystyried newid y cymhellion i awdurdodau lleol drwy gyflwyno elfen o gadw ardrethi'n lleol, buddsoddi'n uniongyrchol yng ngallu awdurdodau lleol i arolygu, a chynyddu faint o ddata a rennir gan fuddsoddi yng ngallu awdurdodau lleol i ddadansoddi ffurflenni data i leihau achosion o osgoi ardrethi annomestig drwy gamfanteisio ar ryddhadau.
- 1.83 Yn olaf, argymhelliad cynrychiolwyr awdurdodau lleol hefyd oedd y dylid atal llety gwyliau tymor byr (pan gânt eu dosbarthu fel rhai annomestig ar gyfer trethi lleol) rhag bod yn gymwys i gael Rhyddhad Ardrethi Busnesau Bach. Roeddent o'r farn bod eu cymhwysedd yn cefnogi gweithgaredd economaidd, a all danseilio cymunedau a chreu ymyl dibyn, lle gallai eiddo sydd ar brydles am lai na 182 diwrnod mewn blwyddyn fod yn atebol am y gyfradd premiwm o dreth gyngor (ac nad oes rhaid i'r rhan fwyaf o'r rhai a osodir am dros 182 diwrnod dalu ardrethi annomestig). Argymhellwyd newid ehangach i Ryddhad Ardrethi Busnesau Bach hefyd gan rai awdurdodau lleol, a fynegodd ddymuniad i bob busnes bach dalu rhywfaint o ardrethi annomestig er mwyn cryfhau cywirdeb cronfeydd data. Cynigiodd cyfranogwyr eraill y dylid cymell busnesau bach i rannu data gydag awdurdodau lleol. Roedd y cyfranogwyr hyn yn aml yn paru'r sylw hwn gyda myfyrdod ar nifer y busnesau a "ymddangosodd" yn sydyn i awdurdodau lleol i dderbyn cymorth ariannol yn ystod pandemig COVID-19.

Menwelediadau Efen 3

Crynodeb o ganfyddiadau'r arolwg

- Ni chafodd ychydig dros hanner yr ymatebwyr ryddhad ardrethi annomestig neu nid oeddent yn gwybod a oeddent yn derbyn rhyddhad ardrethi annomestig. Ar y cyfan, roedd diffyg ymwybyddiaeth amlwg o ryddhadau ymhlith talwyr ardrethi.
- Roedd busnesau llai, yn ogystal â'r rhai yn y sectorau manwerthu, lletygarwch a hamdden, yn tueddu i adrodd bod y rhyddhadau wedi helpu i liniaru risgiau (e.e., osgoi cwmp mewn refeniw). Mewn cyferbyniad, canfu busnesau mwy fod y rhyddhad yn cefnogi mwy o fuddsoddiad.
- Dywedodd bron i hanner yr ymatebwyr fod rhyddhadau yn cael effaith sylweddol neu sylweddol iawn ar eu gallu i weithredu, a dywedodd bron pob un fod rhyddhad ardrethi annomestig yn helpu busnesau bach yng Nghymru yn gyffredinol.
- Mae cryn ansicrwydd ynghylch dyfodol derbyn rhyddhadau ardrethi annomestig. Nid oes llawer o amrywiaeth yn hyn o beth rhwng maint a mathau o fusnesau.

Arolwg talwyr ardrethi

- 1.84 Mae Arolwg Omnibws Busnes Beaufort Research³⁵ yn cynnwys sampl gynrychioliadol o'r holl BBaChau ledled Cymru. Nodir busnesau³⁶ yn sgil y ffaith eu bod yn berchen ar linell ffôn busnes. Diffinnir BBaChau fel busnesau â hyd at 250 o weithwyr, ac mae gan yr ymatebwyr cymwys swyddi arweinyddiaeth neu berchnogaeth lefel uchel yn eu sefydliad busnes. Cynhelir yr arolwg yn ddwyieithog ac mae'n defnyddio Cyfweliad â Chymorth Cyfrifiadur dros y Ffôn.
- 1.85 Gweithiodd Alma Economics gyda Beaufort Research i ychwanegu cwestiynau ar ryddhadau ardrethi annomestig at rifyn Hydref 2024 o'r Arolwg Omnibws Busnes. Roedd hyn yn cynnwys (i) gwybodaeth gyd-destunol am fusnesau'r ymatebwyr ac a ydynt yn derbyn rhyddhad ardrethi annomestig, (ii) y rhyddhadau ardrethi

³⁵ [Beaufort Research. Omnibws Busnes.](#)

³⁶ Diffinnir busnesau yn yr arolwg gan ddefnyddio codau Dosbarthiad Diwydiannol Safonol y DU (SIC) 2007, gan gynnwys gweithgareddau busnes fel (i) Amaethyddiaeth, pysgota, mwyngloddio a chyfleustodau, (ii) gweithgynhyrchu, (iii) adeiladu, trafnidiaeth a chyfathrebu, (iv) cyfanwerthu a manwerthu, (v) cyllid, gweithgareddau eiddo tiriog/busnes, a (vi) gwestai, bwytai a gwasanaethau eraill. Mae categorïau, gan gynnwys gweinyddiaeth gyhoeddus, addysg, gofal iechyd, a gwaith cymdeithasol, oll wedi'u heithrio.

annomestig mwyaf arwyddocaol sy'n cael eu derbyn ar hyn o bryd gan fusnesau, (iii) effeithiau derbyn rhyddhadau ardrethi annomestig, (iv) sicrwydd ynghylch cyfraddau rhyddhadau ardrethi annomestig yn y dyfodol, a (v) pwysigrwydd rhyddhadau ardrethi annomestig wrth helpu busnesau bach yng Nghymru yn gyffredinol. Mae copi o'r cwestiynau arolwg penodol i'w gweld yn Atodiad C. Cyflwynodd Beaufort Research set ddata i Alma Economics ym mis Tachwedd 2024.

Cyfngiadau

- 1.86 Mae'n bwysig nodi bod yr arolwg hwn wedi'i gynnal cyn cyhoeddi'r Gyllideb Ddrafft ar gyfer 2025-26 (Rhagfyr 2024)³⁷. Gallai hyn effeithio ar y canfyddiadau yng nghydestun rhai pynciau, fel sicrwydd, gan nad oedd ymatebwyr yn glir a fyddai RhAMHLI yn parhau cyn y cyhoeddiad. Mae'n bosibl y byddai cynnal yr arolwg eto ar ôl y cyhoeddiad yn arwain at ymatebwyr yn mynegi mwy o sicrwydd ynghylch dyfodol derbyn rhyddhadau ardrethi annomestig.
- 1.87 Mae'r mwyafrif helaeth o ryddhadau a gynrychiolir mewn ymatebion i'r arolwg hwn yn cynnwys RhAMHLI a Rhyddhad Ardrethi Busnesau Bach. Mae sefydliadau'r sector cyhoeddus a'r trydydd sector hefyd wedi'u heithrio o arolwg Beaufort. Mae'r ystyriaethau hyn yn golygu na ellir cyffredinoli'r canfyddiadau i'r rhyddhadau eraill (megis Rhyddhad Ardrethi Elusennol).

Crynodeb o'r ymatebwyr

- 1.88 Cyrhaeddwyd ymatebwyr yr arolwg drwy 500 o gyfweiliadau dros y ffôn rhwng 30 Medi a 20 Hydref 2024. Yna, pwysolwyd y sampl i gynrychioli'r boblogaeth yn well a chywiro gwyriadau bach o'r cwota sampl gofynnol. Mae trosolwg o nodweddion ymatebwyr yr arolwg wedi'u pwysoli i'w weld isod yn Nhabl 6.
- 1.89 Mae'r rhan fwyaf o sampl y busnesau yn cynnwys busnesau llai, a fesurir yn ôl nifer y gweithwyr (e.e., busnesau gyda llai na 10 o weithwyr ($n = 407$) a throsiant blyneddol o lai na £500 mil ($n = 328$) fel procsi). Yn ogystal, cyfanwerthu a manwerthu oedd y rhan fwyaf o'r gweithgareddau busnes ($n = 108$) neu westai a gwasanaethau eraill ($n = 132$). Amaethyddiaeth a gweithgynhyrchu oedd yn

³⁷ [Llywodraeth Cymru. Datganiad Ysgrifenedig: Cymorth ardrethi annomestig ar gyfer 2025-26.](#)

cynrychioli cyfran leiaf y sampl ac fe'u tynnwyd o'r dadansoddiad oherwydd maint bach y sampl wrth eu croes-dablu â mesurau eraill. Mae'r rhan fwyaf o'r busnesau naill ai yn ne-ddwyrain neu de-orllewin Cymru (n = 308). Yn ogystal, mae 46% o fusnesau o'r sampl yn berchen ar yr eiddo busnes y maent yn gweithredu ohono, ac mae 38% yn rhentu eu heiddo. Fe hepgorodd y busnesau hynny nad oes ganddynt eiddo (yn berchen ar eiddo neu'n rhentu eiddo) ein cwestiynau a symud ymlaen i ran nesaf yr arolwg, gan nad oeddent yn ymwneud â'r system ardrethi annomestig.

Tabl 6. Crynodeb o'r ymatebwyr – sampl wedi'i bwysoli o 500 o fusnesau ledled Cymru


Nodweddion	Nifer (n)	Canran (%)
1 gweithiwr	109	22%
2 i 9 o weithwyr	298	60%
10+ o weithwyr	93	19%
Y gogledd	121	24%
Y de-ddwyrain	191	38%
Y de-orllewin	117	23%
Y canolbarth	71	14%
Sectorau cyfanwerthu a manwerthu	108	22%
Gwestai a gwasanaethau eraill	132	26%
Sectorau amaethyddiaeth, mwynloddio a chyfleustodau	58	12%
Sector gweithgynhyrchu	33	7%
Sectorau adeiladu a thrafnidiaeth	81	16%
Cyllid a gwasanaethau busnes	87	17%
Trosiant o dan £100 mil	167	33%

£101 mil - £500 mil o drosiant	161	32%
Trosiant dros £501 mil	114	23%
Ddim yn gwybod/gwrthod rhoi trosiant	58	12%
Eiddo busnes a berchnogir	232	46%
Eiddo busnes ar rent	191	38%
Nid yw'n gweithredu o eiddo	77	15%

Ymwybyddiaeth o ryddhadau

1.90 Gofynnwyd i ymatebwyr yr arolwg pa ryddhadau ardrethi annomestig y maent yn eu derbyn ar hyn o bryd, gyda'r mwyafrif o'r ymatebwyr (53%) yn nodi nad oedd eu busnes yn derbyn unrhyw ryddhad neu nad oeddent yn gwybod. Nid yw hyn o reidrwydd yn golygu nad yw'r ymatebwyr yn derbyn rhyddhad, ond efallai nad ydynt yn ymwybodol eu bod yn derbyn rhyddhad mewn rhai achosion. Rhyddhad Ardrethi Busnesau Bach (41%) a RhAMHLI (12%) oedd y ddau ryddhad a gofnodwyd fwyaf o ran y rhyddhadau a dderbynnir, fel y dangosir yn Ffigur 6. Fel y nodwyd uchod, cafodd sefydliadau cyhoeddus a thrydydd sector eu heithrio o arolwg Beaufort, sy'n esbonio pam nad oedd unrhyw ymatebwyr yn dweud eu bod yn derbyn Rhyddhad Ardrethi Elusennol.


Ffigur 6. Canran y busnesau sy'n derbyn rhyddhad ardrethi annomestig



Cyfanswm maint y sampl ar gyfer y cwestiwn hwn yw 325 o ymatebion.


- 1.91 Mae o leiaf hanner y busnesau sydd â nifer fach o weithwyr neu drosiant is, sy'n debygol o fod yn gymwys i gael Rhyddhad Ardrethi Busnesau Bach, yn dal i ddweud nad ydynt yn derbyn unrhyw ryddhad ardrethi annomestig neu ddim yn gwybod a ydynt yn derbyn rhyddhad. Dangosir dosbarthiad yn ôl nifer y gweithwyr yn Ffigur 7, lle mae 49% o fusnesau un gweithiwr a 51% o fusnesau sydd â rhwng dau a naw o weithwyr yn dweud nad ydynt yn derbyn unrhyw ryddhad neu ddim yn gwybod am unrhyw ryddhadau ardrethi annomestig. Dangosir y dosbarthiad yn ôl gwerth trosiant (£) yn Ffigur 8, lle nad yw 69% o fusnesau sydd â throsiant o dan £100 mil yn derbyn rhyddhad ardrethi annomestig neu nad ydynt yn gwybod os ydynt yn derbyn rhyddhad ardrethi annomestig. Yn ogystal, y busnesau â throsiant uwch (£500mil+) neu drosiant heb ei adrodd oedd yn derbyn y gyfran uchaf o Ryddhad Ardrethi Busnesau Bach a adroddwyd.

Ffigur 7. Canran y busnesau yn ôl nifer y gweithwyr sy'n derbyn Rhyddhad Ardrethi Busnesau Bach



Maint y sampl ar draws y tri chategori (ddim yn gwybod, nid yw'r busnes yn derbyn rhyddhad ardrethi annomestig neu Ryddhad Ardrethi Busnesau Bach) ar gyfer busnesau un gweithiwr yw 62. Maint y sampl ar gyfer busnesau sydd â rhwng 2 a 9 o weithwyr yw 251. Maint y sampl ar gyfer busnesau sydd â dros 10 o weithwyr yw 79.

Ffigur 8. Canran y busnesau yn ôl gwerth trosiant sy'n derbyn Rhyddhad Ardrethi Busnesau Bach




Maint y sampl ar draws y tri chategori (ddim yn gwybod, nid yw'r busnes yn derbyn rhyddhad ardrethi annomestig neu Ryddhad Ardrethi Busnesau Bach) ar gyfer trosiant o dan £100 mil yw 117. Maint y sampl ar gyfer £101 - £500 mil yw 128. Maint y sampl ar gyfer dros £501 mil yw 99. Maint y sampl ar gyfer Ddim yn gwybod / gwrthod rhoi gwerth trosiant yw 48.

- 1.92 Dangosir diffyg ymwybyddiaeth o ryddhad ardrethi annomestig hefyd ar gyfer RhAMHLI, lle mae tua 40% o fusnesau sy'n ymwneud â gweithgareddau cyfanwerthu a manwerthu neu westai a gwasanaethau eraill yn dweud naill ai nad ydynt yn derbyn rhyddhad neu eu bod yn anymwybodol o unrhyw ryddhad y maent

yn ei dderbyn. Nododd tua 20% o fusnesau ym mhob categori gweithgaredd busnes eu bod wedi derbyn RhAMHLI, fel y dangosir yn Ffigur 9. Mae'r canfyddiadau hyn yn cyd-fynd â thystiolaeth ansoddol a geir wrth ymgysylltu ag awdurdodau lleol a thalwyr ardrethi (fel y trafodwyd ym Mhenodau 4 a 5). Dylid nodi efallai na fydd rhai mathau busnes (cyfanwerthu a rhai gwasanaethau eraill) a gynhwysir yn y categorïau hyn yn gymwys i gael RhAMHLI.

Ffigur 9. Canran y busnesau yn ôl math o weithgaredd sy'n derbyn RhAMHLI




Maint y sampl ar draws y tri chategori (ddim yn gwybod, nid yw'r busnes yn derbyn rhyddhad ardrethi annomestig neu RhAMHLI) ar gyfer busnesau cyfanwerthu a manwerthu yw 99. Maint y sampl ar gyfer gwestai a gwasanaethau eraill yw 48.

- 1.93 Gofynnwyd hefyd i ymatebwyr a dderbyniodd ryddhad lluosog pa ryddhad a gawsant oedd â'r gwerth mwyaf sylweddol. Maint sampl bach iawn oedd i'r cwestiwn hwn (34 o ymatebion wedi'u pwysoli), gan nodi mai ychydig iawn o fusnesau sy'n derbyn mwy nag un rhyddhad neu nad ydynt yn ymwybodol eu bod yn derbyn mwy nag un rhyddhad.
- 1.94 Gofynnwyd i'r ymatebwyr hefyd pe gallent gymhwyso rhyddhad ychwanegol o £1,000 ar gyfer eu busnes, pa dreth y byddai'n well ganddynt i hyn gael ei chymhwyso yn ei herbyn. Defnyddiwyd y cwestiwn hwn i wirio a oedd gan ymatebwyr unrhyw duedd tuag at y math o dreth y maent yn ei thalu, gan na ddylai fod unrhyw ffafriaeth tuag at y mecanwaith y mae busnes yn derbyn rhyddhad treth ychwanegol o werth sefydlog yn ei sgil. Fel y dangosir yn Ffigur 10, nid oedd 42%

o'r ymatebwyr yn ffafrio unrhyw dreth benodol o ran cymhwyso £1,000 o ryddhad ychwanegol iddi. Roedd hyn wedi'i ddosbarthu'n gyfartal ar draws nodweddion a demograffeg. Ardrethi annomestig oedd yr ail uchaf ond un, sef 19%, sy'n nodi bod rhywfaint o ymdeimad gan fusnesau y byddai rhyddhad yn fwy buddiol pe byddai'n cael ei gymhwyso i ardrethi annomestig dros fathau eraill o drethiant, gan gynnwys treth gorfforaeth. Yn ôl y math o fusnes, busnesau cyfanwerthu a manwerthu oedd â'r gyfran uchaf (29%) oedd yn nodi eu bod yn ffafrio cymhwyso £1,000 o ryddhad i ardrethi annomestig.

Ffigur 10. Canran y busnesau sy'n adrodd ffafriaeth o ran rhyddhad ychwanegol




Maint y sampl ar gyfer y cwestiwn hwn yw 423.

Effaith economaidd rhyddhadau

- 1.95 O'r busnesau sy'n adrodd eu bod yn derbyn rhyddhad ardrethi annomestig, gofynnwyd i'r ymatebwyr pa effeithiau y maent wedi'u profi o ganlyniad. Yr effaith uchaf a gofnodwyd oedd rheoli costau eraill (62%), twf refeniw ac osgoi gostyngiadau mewn refeniw (y ddau ar 37%), a mwy o fuddsoddiad yn y busnes (35%). Dangosir hyn yn Ffigur 11.


Ffigur 11. Canran y busnesau sy'n adrodd am effeithiau rhyddhadau ardrethi annomestig



Maint y sampl ar gyfer y cwestiwn hwn yw 201.

- 1.96 Mae effeithiau rhyddhadau ardrethi annomestig yn cael eu gwireddu mewn ffyrdd gwahanol yn dibynnu ar faint y busnes. Er enghraifft, effeithiau sy'n gysylltiedig â rheoli costau neu osgoi effeithiau negyddol yn ymwneud yn bennaf â busnesau bach. Fel y dangosir yn Ffigur 12, mae busnesau llai (trosiant o dan £100 mil) yn nodi canran uwch o effeithiau rheoli costau a chanran is o dwf refeniw ac effeithiau buddsoddi na busnesau mwy (trosiant dros £501 mil), fel osgoi gostyngiadau mewn refeniw (53% yn erbyn 32% yn y drefn honno) ac osgoi gostyngiadau mewn buddsoddiadau (33% yn erbyn 24% yn y drefn honno). Mae rheoli costau yn gymharol uchel ar draws pob lefel o drosiant ond dyma'r uchaf ar gyfer busnesau sydd â throsiant o dan £100 mil (69%). Mewn cymhariaeth, mae'r effaith sy'n gysylltiedig â buddsoddiad neu dwf busnes, sy'n galluogi staff newydd i gael eu cyflogi, yn uwch yn y categori trosiant dros £501 mil (23%) o'i gymharu â llai na £100 mil (9%). Mae hyn yn awgrymu bod effeithiau rhyddhadau i fusnesau bach yn caniatáu lliniaru risgiau o'i gymharu â busnesau mwy, lle mae rhyddhadau yn caniatáu iddynt fuddsoddi ymhellach.


Ffigur 12. Canran y busnesau sy'n adrodd am effeithiau rhyddhadau ardrethi annomestig yn ôl trosiant



Maint y sampl ar draws pob categori effaith ar gyfer trosiant o dan £100 mil yw 96. Maint y sampl ar gyfer trosiant rhwng £101 mil a £500 mil yw 109, a maint y sampl ar gyfer trosiant dros £501 mil yw 60. Sylwch nad oedd yr opsiwn "ddim yn gwybod" ar gyfer trosiant wedi'i gynnwys oherwydd maint bach y sampl. Yn ogystal, dim ond busnesau sy'n adrodd eu bod yn derbyn rhyddhadau ardrethi annomestig sy'n ateb y cwestiwn hwn, ac felly, mae maint y sampl yn llai o'i gymharu â chwestiynau eraill yr arolwg.

- 1.97 Mae effeithiau rhyddhadau ardrethi annomestig hefyd yn cael eu gwireddu'n wahanol yn dibynnu ar y math o fusnes. Dangosir hyn yn Ffigur 13, lle mae effaith osgoi gostyngiadau mewn refeniw yn cyfrif am 40% ar gyfer busnesau manwerthu cyfanwerthol a 43% ar gyfer gwestai, tra bod 34% o fusnesau cyllid yn nodi'r effaith hon. Mewn cymhariaeth, effaith galluogi buddsoddiad uwch yw 29% ar gyfer cyfanwerthu a manwerthu, a 38% ar gyfer gwestai a gwasanaethau eraill, o'i gymharu â 48% ar gyfer busnesau cyllid a gwasanaethau busnes. Yn yr un modd â busnesau bach, mae hyn yn dangos bod busnesau sydd ag anghenion rhyddhad sydd wedi'u targedu'n fwy (gan gynnwys rhai a allai fod yn gymwys i gael RhAMHLI) yn fwy tebygol o ddefnyddio rhyddhadau i osgoi neu reoli costau o'i gymharu â busnesau sydd â rhyddhadau sydd wedi'u targedu llai sy'n adrodd eu bod yn gallu buddsoddi a thyfu.


Ffigur 13. Canran y busnesau sy'n adrodd am effeithiau rhyddhadau ardrethi annomestig yn ôl y math o weithgaredd



Maint y sampl ar draws yr holl gategoriâu effaith ar gyfer busnesau cyfanwerthu a manwerthu yw 91. Ar gyfer gwestai a gwasanaethau eraill, maint y sampl yw 133. Ar gyfer gwasanaethau cyllid a busnes, maint y sampl yw 46. Sylwch nad yw adeiladu a thrafnidiaeth, gweithgynhyrchu ac amaethyddiaeth wedi'u cynnwys oherwydd maint bach y sampl. Yn ogystal, dim ond busnesau sy'n adrodd eu bod yn derbyn rhyddhadau ardrethi annomestig sy'n ateb y cwestiwn hwn, ac felly, mae maint y sampl yn llai o'i gymharu â chwestiynau eraill yr arolwg.

- 1.98 Gofynnwyd i fusnesau asesu effaith derbyn rhyddhad ardrethi annomestig ar eu gallu i weithredu dros y 12 mis nesaf. Dywedodd bron i hanner y busnesau (48%) fod derbyn rhyddhad ardrethi annomestig yn cael effaith sylweddol neu sylweddol iawn ar eu gallu i weithredu, fel y dangosir isod yn Ffigur 14.


Ffigur 14. Canran y busnesau sy'n adrodd am effaith rhyddhadau ardrethi annomestig ar eu gallu i weithredu dros y 12 mis nesaf



Maint sampl y busnesau sy'n adrodd unrhyw effaith yw 201.

1.99 Fel y canfyddiadau blaenorol, mae rhyddhadau ardrethi annomestig yn cael mwy o effaith ar fusnesau bach a mathau penodol o fusnesau. Fel y dangosir yn Ffigur 15, i fusnesau sydd â nifer fach o weithwyr, mae 66% o fusnesau sydd ag un gweithiwr a 48% o fusnesau sydd â rhwng dau a naw o weithwyr yn nodi bod rhyddhadau ardrethi annomestig yn cael effaith sylweddol neu sylweddol iawn ar eu gallu i weithredu, ond dim ond 28% o fusnesau sydd â 10 neu fwy o weithwyr sy'n adrodd hynny.

Ffigur 15. Canran y busnesau yn ôl nifer y gweithwyr sy'n adrodd am effaith rhyddhadau ardrethi annomestig ar eu gallu i weithredu dros y 12 mis nesaf



Mae maint y sampl yn cynnwys 31 o fusnesau un gweithiwr, 128 o fusnesau sydd â rhwng 2 a 9 o weithwyr, a 37 o fusnesau sydd â 10 neu fwy o weithwyr.

1.100 Fel y dangosir yn Ffigur 16, mae 61% o fusnesau sy'n ymwneud â gwasanaethau cyfanwerthu a manwerthu a 54% o fusnesau gwestai a gwasanaethau eraill yn nodi y bydd rhyddhadau yn effeithio ar eu gallu i weithredu dros y 12 mis nesaf.

Ffigur 16. Canran y busnesau yn ôl math o weithgaredd sy'n adrodd am effeithiau rhyddhadau ardrethi annomestig ar eu gallu i weithredu dros y 12 mis nesaf




Maint y sampl ar gyfer busnesau cyfanwerthu a manwerthu yw 56. Maint y sampl ar gyfer gwestai a gwasanaethau eraill yw 70.

- 1.101 Gofynnwyd hefyd i fusnesau pa mor bwysig oedd rhyddhadau ardrethi annomestig i helpu busnesau bach yng Nghymru yn gyffredinol yn eu barn nhw, ac roedd 98% o fusnesau'n dweud eu bod yn bwysig neu'n bwysig iawn. Cafodd gwasanaethau cyllid a busnes eu heithrio o'r dadansoddiad hwn oherwydd maint bach y sampl.

Sicrwydd rhyddhadau

- 1.102 Gofynnwyd i fusnesau hefyd pa mor sicr y maent yn teimlo ynghylch dyfodol derbyn rhyddhadau ardrethi annomestig. Roedd cyfran fawr o ansicrwydd ymhlith busnesau, gyda 48% yn dweud eu bod yn teimlo naill ai'n ansicr neu'n ansicr iawn, fel y dangosir isod yn Ffigur 17. Adlewyrchir hyn yng nghanfyddiadau'r gwaith ymgysylltu â thalwyr ardrethi (fel y trafodir yn ddiweddarach ym Mhennod 5). Roedd amrywiad cyfyngedig ar gyfer y cwestiwn hwn rhwng maint neu fath o fusnes, er bod hyn yn rhannol oherwydd maint bach y sampl ar draws y croes-dablu ar gyfer y cwestiwn hwn.


Ffigur 17. Canran y busnesau sy'n adrodd sicrwydd ynghylch cyfraddau rhyddhadau ardrethi annomestig y maent yn debygol o'u derbyn yn y dyfodol



Maint sampl y busnesau yn adrodd unrhyw effaith yw 201.

1.103 Mae Ffigur 18 yn dangos lledaeniad y sicrwydd ynghylch rhyddhad ardrethi annomestig yn ôl faint o weithwyr sydd gan fusnes, sy'n awgrymu bod busnesau sydd â mwy na dau weithiwr yn fwy tebygol o fod yn ansicr ynghylch rhyddhadau ardrethi annomestig, gyda 50% o fusnesau sydd â rhwng dau a naw o weithwyr a busnesau sydd â 10 neu fwy o weithwyr yn nodi ansicrwydd ynghylch cyfraddau rhyddhadau ardrethi annomestig y byddant yn eu derbyn yn y dyfodol.


Ffigur 18. Canran y busnesau yn ôl nifer y gweithwyr sy'n adrodd sicrwydd ynghylch cyfraddau rhyddhadau ardrethi annomestig y maent yn debygol o'u derbyn yn y dyfodol



Mae maint y sampl yn cynnwys 31 o fusnesau un gweithiwr, 131 o fusnesau â rhwng 2 a 9 o weithwyr, a 37 o fusnesau â 10 neu fwy o weithwyr.

1.104 Mae mathau o fusnesau, sy'n cynnwys rhai a allai fod yn gymwys ar gyfer RhAMHLI, hefyd yn debygol o fod yn eithaf ansicr ynghylch gwerthoedd ardrethi annomestig yn y dyfodol, gyda 50% o westai a gwasanaethau eraill a 51% o fusnesau cyfanwerthu a manwerthu yn adrodd am ansicrwydd, fel y dangosir yn Ffigur 19.

Ffigur 19. Canran y busnesau yn ôl gweithgaredd busnes sy'n adrodd sicrwydd ynghylch cyfraddau rhyddhadau ardrethi annomestig y maent yn debygol o'u derbyn yn y dyfodol



Mae maint y sampl yn cynnwys 29 o fusnesau cyllid a gwasanaethau busnes, 72 o westai a busnesau gwasanaethau eraill, a 59 o fusnesau cyfanwerthu a manwerthu.

Crynodeb o ganfyddiadau'r cyfweiliadau a grwpiau ffocws

- Roedd busnesau'n teimlo'n anymwybodol iawn o'r rhyddhadau sydd ar gael ar hyn o bryd ac yn awgrymu nad yw awdurdodau lleol yn darparu digon o wybodaeth.
- Roedd lefelau cymysg o ddealltwriaeth o feini prawf cymhwysedd ar gyfer rhyddhadau.
- Dywedwyd bod y broses ymgeisio am ryddhad yn ddryslyd ac yn rhwystredig yn ogystal â bod oedi hir ynghlwm â hyn.
- Disgrifiodd busnesau gryn ansicrwydd gan ofni y gallai rhyddhadau gael eu cwtogi neu eu dileu yn fuan. Mae hyn yn cael effaith negyddol ar gynllunio i'r dyfodol.
- Cafodd rhyddhadau eu disgrifio fel "achubiaeth" i fusnesau a'u bod yn cadw llawer yn fyw. Fodd bynnag, roeddent hefyd yn cael eu hystyried yn annigonol o ran mynd i'r afael â'r holl gefnogaeth oedd ei hangen.

Ymgysylltu â thalwyr ardrethi a chyrff cynrychioliadol

- 1.105 Ar ôl cwblhau Elfen 2 ac ochr yn ochr â'r arolwg, gwnaethom ymgysylltu â chyfanswm o ddeg busnes a dau gorff cynrychioliadol drwy un grŵp ffocws, chwe chyfweiliad, a dau ymateb e-bost. Roedd y busnesau wedi'u lleoli mewn wyth awdurdod lleol yn y gogledd, y de a'r gorllewin. Roedd mwyafrif y busnesau yn cynrychioli sectorau manwerthu, hamdden a lletygarwch, ond roedd yna gynrychiolaeth hefyd o'r sectorau elusennau a chyfanwerthu (gan ddau o'r busnesau). Cynigiwyd yr opsiwn i bawb gymryd rhan yn Gymraeg neu Saesneg, gyda phawb yn dewis Saesneg.
- 1.106 Cafodd busnesau eu recriwtio drwy ffurflen gofrestru ar-lein a ddosbarthwyd drwy (i) dau gorff cynrychioliadol yn rhannu hysbyseb drwy eu sianeli, (ii) awdurdodau lleol yn rhannu hysbyseb drwy eu cylchlythyrau, cyfryngau cymdeithasol a rhestrau postio, (iii) anfon e-bost yn uniongyrchol at fusnesau gan ddefnyddio'r manylion cyswllt sydd ar gael i'r cyhoedd (e.e., drwy gyfeiriaduron ar-lein), a (iv) pelen eira o

gysylltiadau. Er gwaethaf hyn, bu'r broses recriwtio yn heriol. Ymhlith y rhesymau dros hyn roedd yr ymrwymiad amser oedd ei angen gan fusnesau sy'n brysur iawn fel arfer, diffyg ymwybyddiaeth o dderbyn rhyddhadau, felly teimlad nad oedd yr adolygiad yn berthnasol iddynt, ac o bosibl natur ddamcaniaethol y gwaith.

- 1.107 Diben ein hymgysylltiad â busnesau oedd deall canfyddiadau talwyr ardrethi a chyrrff cynrychioliadol o ryddhadau ardrethi annomestig. Roedd hyn yn cynnwys pynciau fel (i) hyd a lled y cymorth ariannol sydd ar gael, (ii) ymwybyddiaeth o ryddhadau, (iii) dealltwriaeth o feini prawf cymhwysedd (gan gynnwys prosesau ymgeisio), (iv) boddhad â'r broses o dderbyn rhyddhadau, a (v) y cysylltiad rhwng y baich trethiannol a'r nwyddau a'r gwasanaethau mae'r refeniw ardrethi annomestig yn eu hariannu. Mae'r canllawiau pwnc a ddefnyddiwyd i ymgysylltu â busnesau i'w gweld yn Atodiad D; roedd dau gyfweiliad cwmpasu ar gyfer cyrrff cynrychioliadol yn sail iddynt. Mae'r canllaw pwnc ar gyfer y cyfweiliadau cwmpasu hefyd i'w weld yn Atodiad D.
- 1.108 I ddadansoddi'r canfyddiadau, cynhaliodd aelodau'r tîm ymchwil ddadansoddiad thematig ar nodiadau, trawsgrifiadau ac ymatebion e-bost i ganfod patrymau a safbwyntiau allweddol sy'n dod i'r amlwg o'r gwaith ymgysylltu â thalwyr ardrethi. Mae dadansoddiad thematig yn ddull cyffredin a ddefnyddir i nodi, dadansoddi ac adrodd ar themâu mewn data. Roedd yn caniatáu ar gyfer dehongliad cynnil a manwl o safbwyntiau a phrofiadau talwyr ardrethi a chyrrff cynrychioliadol.

Canfyddiadau o hyd a lled y cymorth ariannol ar hyn o bryd

- 1.109 Cytunodd busnesau a chyrrff cynrychioliadol fod rhyddhadau ardrethi annomestig yn ddefnyddiol ond bod eu bodolaeth yn dangos aneffeithiolrwydd yn y system ardrethi annomestig; disgrifiodd un cyfranogwr ryddhadau fel "rhwymyn rhad". Dadleuodd yr holl gyfranogwyr fod y system ryddhadau bresennol yn gymhleth ac yn aml yn ddryslyd i fusnesau. Awgrymodd cyrrff cynrychioliadol y dylid symud oddi wrth ryddhadau ac ailweithio'r system ardrethi annomestig yn lle hynny, fel nad oes angen rhyddhadau.
- 1.110 Pan ofynnwyd iddynt am y rhyddhadau mwyaf a lleiaf defnyddiol sydd ar gael ar hyn o bryd, nododd y cyfranogwyr fod Rhyddhad Ardrethi Busnesau Bach yn arbennig o ddefnyddiol. Dywedodd rhai cyfranogwyr nad yw Rhyddhad Ardrethi Eiddo Gwag

bob amser yn ddefnyddiol, gan y gall gymell perchnogion busnes i gadw eu heiddo'n wag am amser hirach.

Ymwybyddiaeth o ryddhadau ardrethi annomestig

- 1.111 Ar y cyfan, nid oedd busnesau'n teimlo'n ymwybodol iawn o'r rhyddhadau ardrethi annomestig oedd ar gael, gyda'r rhan fwyaf yn ymwybodol o RhAMHLI a Rhyddhad Ardrethi Busnesau Bach yn unig, sy'n cyd-fynd â chanfyddiadau arolwg Beaufort. Ymhlith y ffynonellau gwybodaeth roedd sgysiau ar lafar ymhlith busnesau, fforymau a Busnes Cymru. Roedd mwyafrif y busnesau o'r farn nad yw eu hawdurdod lleol yn darparu digon o wybodaeth ar hyn o bryd ac na chynhelir unrhyw waith allgymorth rhagweithiol gyda busnesau. Dywedodd un cyfranogwr ei fod yn teimlo mai "hap a damwain" oedd hi p'un a ydych chi'n "dod o hyd i" wybodaeth ddefnyddiol neu bwynt cyswllt.
- 1.112 Er mwyn gwella ymwybyddiaeth, awgrymodd y cyfranogwyr y dylid cynnwys rhagor o wybodaeth am ryddhadau ar filiau ardrethi annomestig, penodi swyddog cyswllt ym mhob awdurdod lleol, ac estyn allan drwy grwpiau lleol ac arweinwyr cymunedol.

Dealltwriaeth o feini prawf cymhwyster rhyddhad ardrethi annomestig

- 1.113 Roedd lefelau cymysg o ddealltwriaeth ynghylch meini prawf cymhwysedd ar gyfer rhyddhadau. O'r busnesau hynny a oedd â dealltwriaeth, roeddent fel arfer yn disgrifio gorfod dod o hyd i wybodaeth drostynt eu hunain yn hytrach na bod eu hawdurdod lleol yn cyfathrebu hyn â nhw. Dim ond dau gyfranogwr a ddywedodd fod eu hawdurdodau lleol wedi cyfleu'r meini prawf cymhwysedd iddynt yn effeithiol.
- 1.114 Her arall a nodwyd oedd trafferth busnesau bach a micro i ddeall y meini prawf cymhwysedd. Dywedodd un cyfranogwr fod gan fusnesau mwy fel arfer well ymwybyddiaeth ac adnoddau ar gyfer cyngor ariannol a chyfrifeg – canfyddiad a adlewyrchir yn Elfen 2.

Bodddhad gyda'r broses o dderbyn rhyddhadau

- 1.115 Ar y cyfan, roedd talwyr ardrethi o'r farn bod y broses ymgeisio gychwynnol (ac unrhyw geisiadau dilynol am ryddhadau nad oedd yn awtomatig) ar hyn o bryd yn amwys, yn araf ac yn rhwystredig. Disgrifiwyd ffurflenni cais hefyd fel rhai sy'n cael

eu dylunio ar gyfer busnesau mwy, sy'n golygu eu bod yn aml yn ddryslyd i fusnesau bach a micro gyda chwestiynau amherthnasol.

- 1.116 Cafodd rhai busnesau gwyliau hunanarlwyd anawsterau wrth symud i ardrethi annomestig i ddechrau (ac felly roedd yn rhaid iddynt barhau i dalu'r dreth gyngor a'r premiymau), ac yna anawsterau diweddarach wrth wneud cais am ryddhadau. Dywedwyd bod yr oedi hyn yn sgil ôl-groniadau gyda phrisiadau Swyddfa'r Asiantaeth Brisio.
- 1.117 Yn gyffredinol, mae cryn ansicrwydd ymhlith talwyr ardrethi ynghylch ardrethi annomestig a rhyddhadau, fel yr adlewyrchir yng nghanfyddiadau'r arolwg uchod. Roedd pryder ymhlith talwyr ardrethi y gallai'r rhyddhadau y maent yn eu derbyn gael eu lleihau neu eu dileu yn y dyfodol agos. Dywedwyd bod diffyg sicrwydd yn cael effaith sylweddol ar waith cynllunio i'r dyfodol. Nododd busnesau eu bod yn cyfyngu ar fuddsoddiadau ac yn torri costau yn eu busnesau am eu bod yn teimlo y gallai eu bil ardrethi annomestig gynyddu yn y dyfodol agos.

Effeithiau derbyn rhyddhadau ardrethi annomestig

- 1.118 At ei gilydd, mae rhyddhad ardrethi annomestig wedi cael effaith gadarnhaol sylweddol ar y busnesau y gwnaethom ymgysylltu â nhw. Fe wnaethon nhw ddisgrifio'r rhyddhadau fel "achubiaeth" sy'n helpu busnesau i oroesi ac aros ar y stryd fawr. Ymhlith y meysydd penodol lle defnyddiwyd rhyddhadau roedd cyflogau staff, offer newydd, mesurau effeithlonrwydd ynni, rhenti, a chyflogi staff newydd.
- 1.119 Fodd bynnag, mae nifer o fusnesau wedi rhybuddio, er eu bod yn gwerthfawrogi'r rhyddhadau ardrethi annomestig yn fawr, "rhan fach iawn iawn" o'r gefnogaeth sydd ei hangen ar fusnesau yw'r rhyddhadau hyn. Disgrifiodd un elusen hefyd yr effeithiau negyddol y gall gostyngiad mewn rhyddhad ardrethi annomestig eu cael, yn enwedig ar fusnesau nid-er-elw sydd â llai o gynilion a llai o rwyd ddiogelwch o'i gymharu â mathau eraill o fusnesau.

Y cysylltiad rhwng refeniw ardrethi annomestig a'r nwyddau a'r gwasanaethau a ariennir yn ei sgil

- 1.120 Fel arfer, nid yw talwyr ardrethi yn ymwybodol o ba nwyddau a gwasanaethau y mae cronfeydd refeniw ardrethi annomestig yn eu hariannu. Dywedwyd nad oedd

eu hawdurdodau lleol yn darparu unrhyw wybodaeth am hyn. Roedd pob busnes yn croesawu tryloywder ar hyn. Nododd ambell fusnes hefyd eu bod yn synnu bod angen iddynt dalu am waredu gwastraff masnachol o hyd, er eu bod yn talu ardrethi annomestig. Arweiniodd hyn at awgrymiadau y dylid clustnodi refeniw ardrethi annomestig ar gyfer yr ardal leol ac ar gyfer gwella busnesau.

- 1.121 Ar y cyfan, teimlai talwyr ardrethi a chyrrff cynrychioliadol, waeth ble mae refeniw ardrethi annomestig yn cael ei wario, ei bod yn bwysig meithrin ymddiriedaeth a gwella cysylltiadau rhwng busnesau ac awdurdodau lleol. Pwysleisiodd un corff cynrychioliadol y dylai busnesau ac awdurdodau lleol gydweithio'n fwy effeithiol er budd economaidd a chymdeithasol.

Casgliadau

- 1.122 Yn seiliedig ar y cyfuniad o fewnwelediadau ar draws tair elfen yr ymchwil, canfu ein hadolygiad o ryddhadau ardrethi annomestig yng Nghymru y bydd pedair egwyddor yn rhan annatod o werthuso rhyddhadau ardrethi annomestig yn y dyfodol: symrlwydd a chydymffurfiaeth, sicrwydd, digonolrwydd refeniw ac effeithlonrwydd economaidd.
- 1.123 Mae hyn yn golygu y dylai rhyddhadau ardrethi annomestig fod yn hawdd i dalwyr ardrethi eu deall a'u hawlio a bod costau gweinyddu isel ynghlwm â hyn ar gyfer yr awdurdodau lleol. Dylent hefyd annog cydymffurfiaeth drwy gyrraedd eu buddiolwyr arfaethedig ac atal camddefnydd o'r system, sef rhywbeth y gellir ei gyflawni drwy symrlwydd. Dylai busnesau hefyd allu dibynnu ar ddyfodol rhyddhadau ardrethi annomestig, gan ganiatáu iddynt gynllunio a chyllidebu'n effeithiol ar gyfer atebolrwydd yn y dyfodol. Mae hyn yn cynnwys amserlen glir a gwerth ariannol ar gyfer y rhyddhad. Yn ogystal, dim ond os oes gan y llywodraeth refeniw digonol i fforddio'r rhyddhad y dylid cynnig rhyddhad ardrethi annomestig, er mwyn sicrhau digonolrwydd refeniw. Yn olaf, er mwyn bod yn effeithlon yn economaidd, dylai rhyddhadau ardrethi annomestig leihau'r ystumiad yn y farchnad yn sgil yr ardrethi annomestig, osgoi cyflwyno ystumiadau newydd, a sicrhau canlyniadau cadarnhaol bwriadedig y rhyddhad.
- 1.124 **Symrlwydd a chydymffurfiaeth.** Ar draws y tair elfen, roedd cytundeb bod symrlwydd a chydymffurfiaeth yn egwyddor bwysig ar gyfer asesu rhyddhadau ardrethi annomestig. Nododd arbenigwyr treth y gellir ystyried symrlwydd o safbwynt rhyddhadau unigol yn ogystal â'r system ryddhadau yn ei chyfanrwydd. Roedd yr egwyddor hon yn arbennig o bwysig i gynrychiolwyr awdurdodau lleol, talwyr ardrethi a chyrff cynrychioliadol, a oedd i gyd yn galw am ryddhadau syml y mae talwyr ardrethi yn ymwybodol ohonynt ac yn gallu eu deall yn llawn.
- 1.125 **Sicrwydd.** Ar draws y tair elfen, roedd cytundeb bod sicrwydd yn egwyddor bwysig ar gyfer asesu rhyddhadau ardrethi annomestig. Cytunodd arbenigwyr treth, cynrychiolwyr awdurdodau lleol, talwyr ardrethi a chyrff cynrychioliadol i gyd fod sicrwydd ynghylch rhyddhadau yn hanfodol ar gyfer gwaith cynllunio busnesau yn y dyfodol, o ran amserlenni clir a gwerthoedd ariannol.

- 1.126 **Digonolrwydd refeniw.** Ar draws Elfennau 1 a 2, roedd cytundeb bod digonolrwydd refeniw yn egwyddor bwysig ar gyfer asesu rhyddhadau ardrethi annomestig. Nododd arbenigwyr treth fod ystyriaethau eraill ynghylch digonolrwydd refeniw yn cynnwys costau gweinyddol a chostau tymor byr yn erbyn costau tymor hir a manteision rhyddhadau. Cytunodd awdurdodau lleol â'r egwyddor hon, o ystyried rôl ardrethi annomestig wrth ariannu gwasanaethau lleol. Roedd yr egwyddor hon yn llai uniongyrchol berthnasol i dalwyr ardrethi eu hunain.
- 1.127 **Effeithlonrwydd economaidd.** Ar draws Elfennau 1 a 2, roedd cytundeb ymhlith arbenigwyr treth a chynrychiolwyr awdurdodau lleol fod effeithlonrwydd economaidd yn egwyddor bwysig ar gyfer asesu rhyddhadau ardrethi annomestig. Fodd bynnag, fel y nodwyd yn Elfen 1, mae ansicrwydd ynghylch baich trethiannol (h.y., pwy yn y pen draw sy'n ysgwyddo'r baich trethiannol rhwng perchennog yr eiddo a meddiannydd yr eiddo) yn effeithio ar y gallu i werthuso effeithlonrwydd economaidd rhai o'r rhyddhadau o fewn y cwmpas. Roedd yr egwyddor hon yn llai uniongyrchol berthnasol i dalwyr ardrethi eu hunain.

Cyfeirnodau

- [Adam, S., 2019. Submission to Treasury Committee inquiry: The impact of business rates on business. Llundain: Sefydliad Astudiaethau Cyllid.](#)
- [Busnes Cymru. 2024. Ardrethi Busnes yng Nghymru – Canllawiau.](#)
- [Gandhi, V., 1987. Pennod 9: Tax structure for efficiency and supply-side economics in developing countries.](#)
- [Mirrlees, J., 2011. Tax by design: The Mirrlees Review. Llundain: Sefydliad Astudiaethau Cyllid / Oxford University Press.](#)
- [OECD, 2014. Addressing the tax challenges of the digital economy. OECD/G20 Base Erosion and Profit Shifting Project. Paris. OECD Publishing.](#)
- [Piper, J., 2020. Certainty in tax.](#)
- [Llywodraeth yr Alban, 2021. Framework for tax 2021.](#)
- [Senedd Cymru. 2023. Deddf Cyllid Llywodraeth Leol \(Cymru\) 2024.](#)
- [StatsCymru. Ardrethi annomestig yn ôl disgrifiad rhes NDR \(£ mil\).](#)
- [StatsCymru. Amcangyfrifon o ardrethi annomestig yn ôl disgrifiad rhes NDR \(£ mil\).](#)
- [StatsCymru. Asesiadau gwariant safonol a chefnogaeth llywodraeth ganolog, Cymru.](#)
- [Llywodraeth Cymru. 2021. Diwygio Cyllid Llywodraeth Leol yng Nghymru: Crynodeb o'r canfyddiadau.](#)
- [Llywodraeth Cymru. 2022. Datganiad llafar: Diwygio Ardrethi Annomestig.](#)
- [Llywodraeth Cymru. 2022. Datganiad Ysgrifenedig: Cymorth ardrethi annomestig ar gyfer 2023-24.](#)
- [Llywodraeth Cymru. 2023. Cyllideb refeniw awdurdodau lleol a rhagolygon gwariant cyfalaf: 2023-2024.](#)
- [Llywodraeth Cymru. 2023. Diwygio ardrethi annomestig yng Nghymru.](#)
- [Llywodraeth Cymru. 2023. Ardrethi annomestig \(gwir\): Ebrill 2022 i Fawrth 2023.](#)
- [Llywodraeth Cymru. 2023. Datganiad Ysgrifenedig: Cymorth ardrethi annomestig ar gyfer 2024-25.](#)
- [Llywodraeth Cymru. 2024. Ardrethi busnes yng Nghymru.](#)
- [Llywodraeth Cymru. 2024. Datganiad Ysgrifenedig: Cymorth ardrethi annomestig ar gyfer 2025-26.](#)

Atodiad A

Cwestiynau cyfweiliadau arbenigwyr treth

1. I ddechrau, a allech chi ddisgrifio mewn ychydig eiriau eich rôl a'ch gweithgareddau o ddydd i ddydd yn [nodi'r sefydliad perthnasol], a sut mae hyn yn berthnasol i bolisi ardrethi annomestig (NDR)?

Drwy adolygiad llenyddiaeth rydym wedi nodi sawl egwyddor y byddem yn gwerthfawrogi eich adborth arnynt i asesu rhyddhadau ardrethi annomestig. Rhwngwyboda i mi os yw'n well gennych chi hepgor unrhyw un o'r cwestiynau canlynol gan nad ydym yn disgwyl i bob cyfweilai fod ag arbenigedd ym mhob un o'r egwyddorion.

2. Yr egwyddor gyntaf a nodwyd gennym yw 'symlwrwydd', a byddwn yn asesu'r egwyddor hon yn seiliedig ar i ba raddau y mae rhyddhad yn syml i'w ddeall a'i weinyddu. Er enghraifft, bydd rhyddhad ardrethi annomestig yn sgorio'n uwch yn erbyn yr egwyddor hon os caiff ei weithredu'n awtomatig.
 - a. Ydy'r dehongliad hwn yn ategu eich dealltwriaeth chi o'r egwyddor hon?
 - b. Ydych chi'n cytuno â'n defnydd o symlwrwydd i asesu rhyddhadau ardrethi annomestig?
 - c. Oes dulliau eraill y dylem eu defnyddio i asesu'r egwyddor hon?
3. Yr ail egwyddor a nodwyd gennym yw 'sicrwydd', a byddwn yn asesu'r egwyddor hon yn seiliedig ar i ba raddau y mae rhyddhad yn sicrhau bod talwyr ardrethi yn deall yn glir faint o dreth sy'n ddyledus ganddynt a phryd y mae'n ddyledus.
 - a. Ydy'r dehongliad hwn yn ategu eich dealltwriaeth chi o'r egwyddor hon?
 - b. Ydych chi'n cytuno â'n defnydd o sicrwydd i asesu rhyddhadau ardrethi annomestig?
 - c. Oes dulliau eraill y dylem eu defnyddio i asesu'r egwyddor hon?
4. Y drydedd egwyddor a nodwyd gennym yw 'digonolrwydd refeniw', a byddwn yn asesu'r egwyddor hon yn seiliedig ar i ba raddau y mae cydbwysedd rhwng darparu'r rhyddhad a sicrhau y gall y llywodraeth gynhyrchu digon o incwm o hyd. Roeddem yn bwriadu asesu'r egwyddor hon drwy gyfrifo cyfran y rhyddhad dros gyfanswm y refeniw ardrethi annomestig a gasglwyd.

- a. Ydy'r dehongliad hwn yn ategu eich dealltwriaeth chi o'r egwyddor hon?
 - b. Ydych chi'n cytuno â'n defnydd o ddigonolrwydd refeniw i asesu rhyddhadau ardrethi annomestig?
 - c. Oes dulliau eraill y dylem eu defnyddio i asesu'r egwyddor hon? Os felly, pa fesurau / data y dylem eu defnyddio?
5. Y bedwaredd egwyddor a nodwyd gennym yw 'effeithlonrwydd economaidd'. Mae effeithlonrwydd yn cyfeirio at y ffaith y dylai (i) rhyddhadau treth annog gweithgaredd economaidd a (ii) osgoi ystumiadau yn y farchnad, er enghraifft atal newidiadau mewn ymddygiad sy'n lleihau allbwn economaidd cyffredinol.
 - a. Ydy'r dehongliad hwn yn ategu eich dealltwriaeth chi o'r egwyddor hon?
 - b. Ydych chi'n cytuno â'n defnydd o effeithlonrwydd i asesu rhyddhadau ardrethi annomestig?
 - c. Oes dulliau eraill y dylem eu defnyddio i asesu'r egwyddor hon?
6. Y bumed egwyddor a nodwyd gennym yw 'cydymffurfiaeth a gweinyddiaeth', a byddwn yn asesu'r egwyddor hon yn seiliedig ar i ba raddau y mae rhyddhad wedi'i gynllunio i osgoi camddefnydd o'r system ryddhadau a sicrhau eu bod yn cyrraedd y buddiolwyr arfaethedig.
 - a. Ydy'r dehongliad hwn yn ategu eich dealltwriaeth chi o'r egwyddor hon?
 - b. Ydych chi'n cytuno â'n defnydd o gydymffurfiaeth a gweinyddiaeth i asesu rhyddhadau ardrethi annomestig?
 - c. Oes dulliau eraill y dylem eu defnyddio i asesu'r egwyddor hon?
7. Ydych chi wedi dod ar draws egwyddorion ychwanegol y credwch y dylem eu defnyddio i werthuso rhyddhadau ardrethi annomestig?
 - a. A fydddech chi'n disodli unrhyw un o'r egwyddorion a drafodwyd yn flaenorol gyda'r egwyddorion ychwanegol hyn i werthuso rhyddhadau ardrethi annomestig?
8. Oes unrhyw sylwadau eraill gennych ynglŷn â rhyddhadau treth ac egwyddorion yr hoffech eu trafod cyn i ni orffen y cyfweiliad?

Atodiad B

Cwestiynau cyfweiliad cwmpasu awdurdodau lleol

1. I ddechrau, allech chi ddweud wrthyf beth yw teitl eich swydd a sut mae hyn yn ymwneud â gweinyddu rhyddhadau ardrethi annomestig?

Mae'r rhyddhadau y byddwn yn eu hasesu yn ein hadolygiad, ac sydd felly o fewn cwmpas y cyfweiliad heddiw, fel a ganlyn:

- Rhyddhad Ardrethi Busnesau Bach
- Rhyddhad Ardrethi Elusenol
- Rhyddhad Ardrethi Eiddo Gwag
- Rhyddhad Gwelliannau
- Rhyddhad Rhwydweithiau Gwresogi
- Rhyddhad Ardrethi Manwerthu, Hamdden a Lletygarwch
- Rhyddhad Trosiannol

Yn ein gweithdy, rydym yn bwriadu trafod:

- Egwyddorion a allai lywio ein gwerthusiad o ryddhadau: symlrwydd a chydymffurfiaeth, sicrwydd, digonolrwydd refeniw, ac effeithlonrwydd economaidd – bydd y diffiniadau yn cael eu hesbonio yn y gweithdy a bydd awdurdodau lleol yn gallu gwneud sylwadau ar eu perthnasedd a'u pwysigrwydd.
- Lefel ymwybyddiaeth a dealltwriaeth o ryddhadau ardrethi annomestig ymhlith busnesau lleol.
- I ba raddau y mae asesu cymhwysedd rhyddhadau yn her a pha ryddhadau yw'r symlaf neu'r mwyaf heriol i'w hasesu.
- Yr agweddau mwyaf dwys o ran adnoddau i weinyddu rhyddhadau ardrethi annomestig a pha ryddhadau yw'r mwyaf a'r lleiaf dwys o ran adnoddau i'w gweinyddu.
- Cryfderau a heriau cyffredinol wrth weinyddu rhyddhadau ardrethi annomestig.
- Cymhlethdodau a rhyngweithiadau rhwng gwahanol gynlluniau rhyddhad.

2. A fydd y pynciau hyn yn cynnwys yr holl bethau cadarnhaol a negyddol o ran gweinyddu rhyddhadau ardrethi annomestig y gallai awdurdodau lleol fod eisiau eu trafod?
3. Oes unrhyw ryddhad y gallai mynychwyr ganolbwyntio gormod neu rhy ychydig arno?
 - a. Cyd-destun: Awgrymwyd y gallai Rhyddhad Ardrethi Manwerthu, Hamdden a Lletygarwch godi yn aml gan ei fod yn gymhleth i'w weinyddu.
4. Oes unrhyw faterion a allai fod yn ddadleuol y mae angen i ni fod yn ymwybodol ohonynt?
5. Rydym yn bwriadu ymgysylltu â Phenaethiaid Refeniw a Budd-daliadau neu rolau cyfatebol. Ydy'r pynciau hyn yn gwneud synnwyr i'r unigolion hyn eu trafod yn fanwl?
 - a. Oes swyddogion awdurdodau lleol eraill y dylem ystyried eu gwahodd ochr yn ochr â Phenaethiaid Refeniw a Budd-daliadau?
6. Oes unrhyw bynciau perthnasol eraill yr hoffech eu trafod cyn i ni orffen y cyfweliad?

Cwestiynau gweithdai awdurdodau lleol

1. I ddechrau, a all pawb ddweud wrthym beth yw ardal eu hawdurdod lleol, eu swydd, a sut mae hyn yn berthnasol i weinyddiaeth rhyddhadau ardrethi annomestig?

Mae'r rhyddhadau y byddwn yn eu hasesu yn ein hadolygiad, ac sydd felly o fewn cwmpas y gweithdy heddiw, fel a ganlyn:

- Rhyddhad Ardrethi Busnesau Bach
- Rhyddhad Ardrethi Elusenol
- Rhyddhad Ardrethi Eiddo Gwag
- Rhyddhad Gwelliannau
- Rhyddhad Rhwydweithiau Gwresogi
- Rhyddhad Ardrethi Manwerthu, Hamdden a Lletygarwch
- Rhyddhad Trosiannol

Cyn trafod gweinyddu rhyddhadau ardrethi annomestig, hoffem gael trafodaeth fer ar yr egwyddorion y byddwn ni'n eu defnyddio i asesu'r rhyddhadau ardrethi annomestig.

Datblygwyd yr egwyddorion hyn yn seiliedig ar adolygiad llenyddiaeth a chyfweliadau gydag arbenigwyr treth. Bydd egwyddorion rhyddhad treth yn llywio newidiadau i ryddhadau yn y dyfodol, felly mae'n bwysig i ni gael eich adborth ar y rhain.

Yr egwyddorion rydym yn eu cynnig ar hyn o bryd yw:

- Symrlrwydd a chydymffurfiaeth – Rhyddhadau yn syml i'r talwyr ardrethu eu deall a'u hawlio gyda chostau gweinyddu isel i awdurdodau lleol. Mae rhyddhadau syml yn tueddu i greu llai o gyfleoedd i wneud camgymeriadau ac felly yn sicrhau cydymffurfiaeth uwch.
 - Sicrwydd – i ba raddau y gall busnesau ddibynnu ar ddyfodol rhyddhad, gan ganiatáu iddynt gynllunio a chyllidebu'n effeithiol ar gyfer y dyfodol.
 - Digonolrwydd refeniw – Rhaid i systemau treth gynhyrchu digon o refeniw i gefnogi gwariant y llywodraeth. Mae rhyddhadau ardrethi yn cynrychioli ardrethi a ildwyd a dylid ond eu cynnig os gall y llywodraeth fforddio gwneud hynny.
 - Effeithlonrwydd economaidd – Dylai rhyddhadau leihau ystumio'r dreth, osgoi cyflwyno ystumiadau newydd, a sicrhau'r budd mwyaf o allanoldebau arfaethedig y rhyddhad.
2. Oes gan unrhyw un farn ar y gyfres hon o egwyddorion i'w defnyddio i asesu rhyddhadau ardrethi annomestig?
- a. Ydych chi'n cytuno â'r diffiniadau hyn?
 - b. Oes unrhyw un o'r egwyddorion hyn yn fwy perthnasol i'ch gwaith nag eraill?
 - c. Oes unrhyw egwyddorion ychwanegol y byddech chi'n eu hawgrymu?

Wrth ateb y cwestiynau canlynol, cofiwch fod gennym ddiddordeb mewn elfennau sy'n debyg ac yn wahanol o ran dulliau gweithredu mewn gwahanol awdurdodau lleol, felly mae croeso i chi wneud sylwadau ac adeiladu ar atebion cyfranogwyr eraill gyda'ch rhai chi.

3. Ydych chi'n teimlo bod ymwybyddiaeth a dealltwriaeth dda o ryddhadau ardrethi annomestig ymhlith busnesau yn eich awdurdod lleol?

- a. Ble gall busnesau yn eich awdurdod lleol ddod o hyd i wybodaeth berthnasol?
 - b. Pa mor aml ydych chi'n cael cwestiynau gan fusnesau am ryddhadau ardrethi annomestig?
 - i. Pa gwestiynau yw'r cwestiynau mwyaf cyffredin am ryddhadau?
4. I ba raddau y mae asesu cymhwysedd rhyddhadau yn her?
- a. Beth yw'ch prosesau chi ar gyfer asesu cymhwysedd ar gyfer rhyddhadau?
 - i. Oes gennych chi'r wybodaeth sydd ei hangen i asesu cymhwysedd yn effeithiol (e.e. deddfwriaeth a chanllawiau)?
 - b. Pa ryddhad(au) sydd fwyaf syml i asesu cymhwysedd ar eu cyfer? Pam?
 - c. Pa ryddhad(au) sydd fwyaf anodd asesu cymhwysedd ar eu cyfer? Pam?
 - d. Beth yw'r prif heriau o ran gwerthuso hygrededd y wybodaeth a ddarperir mewn ceisiadau?
 - i. Pa mor aml y darperir gwybodaeth yn anghywir (naill ai drwy gamgymeriad neu'n fwriadol)?
5. Beth yw'r agweddau mwyaf dwys o ran adnoddau o safbwynt gweinyddu rhyddhadau ardrethi annomestig?
- a. Pa ryddhad(au) sydd fwyaf dwys o ran adnoddau? Pam?
 - b. Pa ryddhad(au) sydd leiaf dwys o ran adnoddau? Pam?
 - c. A fyddai'n bosibl amcangyfrif cost gweinyddu pob rhyddhad?
6. Oes unrhyw gymhlethdodau a rhyngweithiadau rhwng gwahanol gynlluniau rhyddhad?
- a. Beth yw'r broses a ddefnyddir pan fydd talwyr ardrethi yn gymwys i gael sawl rhyddhad?
7. O ystyried yr holl agweddau ar weinyddiaeth rydym newydd eu trafod, beth yw'r prif gryfderau a heriau ar hyn o bryd wrth weinyddu rhyddhad ardrethi annomestig?
- a. Faint o farn a disgresiwn sydd eu hangen fel arfer?
 - b. Ar y cyfan, pa ryddhad(au) sydd leiaf heriol i'w gweinyddu? Pam?

- c. Ar y cyfan, pa ryddhad(au) sydd fwyaf heriol i'w gweinyddu? Pam?
 - d. Oes gwersi'n cael eu dysgu o'r heriau hyn ar gyfer y dyfodol?
8. Oes unrhyw bynciau perthnasol eraill yr hoffech eu trafod cyn i ni orffen y gweithdy?

Atodiad C

Cwestiynau arolwg talwyr ardrethi

1. Ydy'ch busnes yn gweithredu o eiddo busnes sy'n eiddo i chi neu rydych yn ei rentu? Hynny yw, a oes gennych leoliad sefydlog rydych chi'n rhedeg eich busnes ohono, p'un a yw hynny'n eiddo i chi neu'n un rydych yn ei rentu gan landlord? Os ydych chi'n defnyddio'ch cartref eich hun fel canolfan ar gyfer eich busnes, neu os ydych chi'n rhedeg busnes symudol lle rydych chi'n teithio o gwmpas ac yn gweld cwsmeriaid yn eu cartrefi eu hunain, ni fyddai hyn yn cyfrif fel eiddo busnes.

- a. Ydy – Eiddo busnes rwy'n berchen arno [parhau]
- b. Ydy – Eiddo busnes ar rent [parhau]
- c. Nac ydy – Dim eiddo [ewch i'r adran nesaf]

2. Pe bai eich busnes yn derbyn rhyddhad treth ychwanegol o £1,000 fel cyfanswm ar gyfer y busnes cyfan, beth fyddai'n well gennych i hyn fod yn rhyddhad ar ei gyfer?

Darllenwch yn uchel. Cod sengl. [trefn ar hap]

- a. Treth gorfforaeth
- b. Treth incwm
- c. Yswiriant Gwladol y Cyflogwr
- d. Ardrethi Annomestig
- e. Dim ffafriaeth
- f. Ddim yn gwybod

Mae'r cwestiynau nesaf yn ymwneud â threthi busnes, neu Ardrethi Annomestig (NDR).

Trethi eiddo yw'r rhain sy'n helpu i dalu am wasanaethau lleol ac sy'n cael eu codi ar y rhan fwyaf o eiddo annomestig. Maen nhw'n cael eu talu i'r Cyngor lleol.

3. Ystyriwch y rhestr ganlynol o ryddhadau ardrethi annomestig, pa rai rydych chi'n gwybod bod eich busnes yn eu derbyn ar hyn o bryd?

Darllenwch yn uchel a dewiswch bopeth sy'n berthnasol [trefn ar hap]

- a. Rhyddhad Ardrethi Manwerthu, Hamdden a Lletygarwch

- b. Rhyddhad Ardrethi Busnesau Bach
- c. Rhyddhad Ardrethi Elusennol
- d. Rhyddhad Ardrethi Eiddo Gwag
- e. Rhyddhad Trosiannol
- f. Rhyddhad Gwelliannau
- g. Rhyddhad Rhwydweithiau Gwresogi
- h. Ddim yn gwybod [EWCH I C9]
- i. Nid yw'r busnes yn derbyn rhyddhadau ardrethi annomestig

Ar gyfer c4 yn unig, gofynnwch os oes 2 neu fwy wedi'u dewis yn c3

4. Beth oedd y rhyddhad ardrethi annomestig mwyaf sylweddol (o ran swm) a gawsoch o'r rhestr ganlynol?

Darllenwch [rhestr i gynnwys y rhai a ddewiswyd yn c3]. Cod sengl

- a. Rhyddhad Ardrethi Manwerthu, Hamdden a Lletygarwch
- b. Rhyddhad Ardrethi Busnesau Bach
- c. Rhyddhad Ardrethi Elusennol
- d. Rhyddhad Ardrethi Eiddo Gwag
- e. Rhyddhad Trosiannol
- f. Rhyddhad Gwelliannau
- g. Rhyddhad Rhwydweithiau Gwresogi
- h. Ddim yn gwybod

5. Pa un o'r effeithiau canlynol mae [mewnysod y rhyddhad a ddewiswyd yn c3 (os mai dim ond un) neu c4] wedi'i alluogi?

Do/naddo/ ddim yn gwybod i bob un

- a. Galluogi twf refeniw
- b. Galluogi buddsoddiad uwch yn y busnes
- c. Galluogi cyflogi staff newydd

- d. Galluogi rheoli costau eraill (e.e. biliau ynni)
 - e. Osgoi cwmp mewn refeniw
 - f. Osgoi cwmp mewn buddsoddiadau yn y busnes
 - g. Osgoi lleihau nifer y staff
 - h. Arall [testun agored]
6. Ydy derbyn rhyddhad ardrethi annomestig wedi galluogi'ch busnes i fod yn berchen ar fwy o eiddo neu rentu mwy na fyddai'n bosib heb y rhyddhadau (e.e. mwy o safleoedd, eiddo mwy, neu osgoi gostyngiadau yng nghyfanswm yr eiddo y mae eich busnes yn berchen arno neu'n rhentu)?
- a. Do
 - b. Naddo
 - c. Ddim yn gwybod
7. Faint o effaith y bydd derbyn rhyddhad ardrethi annomestig yn gyffredinol yn ei chael ar eich gallu i barhau i fasnachu dros y 12 mis nesaf? A fydd yn cael...?

Darllenwch yn uchel

- a. Effaith sylweddol iawn
 - b. Effaith sylweddol
 - c. Effaith fach
 - d. Dim effaith
 - e. Ddim yn gwybod
8. Pa mor sicr ydych chi'n teimlo am gyfraddau'r rhyddhad ardrethi annomestig y byddwch chi'n ei dderbyn yn y dyfodol?

Darllenwch yn Uchel

- a. Yn sicr iawn
- b. Yn sicr
- c. Ddim yn sicr nac yn ansicr

- d. Yn ansicr
- e. Yn ansicr iawn
- f. Ddim yn gwybod

9. Pa mor bwysig yn eich barn chi yw rhyddhadau ardrethi annomestig i helpu busnesau bach yng Nghymru yn gyffredinol?

Darllenwch yn Uchel

- a. Pwysig iawn
- b. Pwysig
- c. Ddim yn bwysig nac yn ddibwys
- d. Dibwys
- e. Yn ddibwys iawn
- f. Ddim yn gwybod

Atodiad D

Cwestiynau cyfweiliad cwmpasu cyrff cynrychioliadol

1. I ddechrau, allech chi ddweud wrthyf beth yw teitl eich swydd a sut mae'ch gwaith yn ymwneud â rhyddhadau ardrethi annomestig?

Mae'r rhyddhadau y byddwn yn eu hasesu yn ein hadolygiad, ac sydd felly o fewn cwmpas y cyfweiliad heddiw a'r grwpiau ffocws arfaethedig, fel a ganlyn:

- Rhyddhad Ardrethi Busnesau Bach (wedi'i gymhwyso'n awtomatig)
- Rhyddhad Ardrethi Elusennol (wedi'i gymhwyso'n awtomatig)
- Rhyddhad Ardrethi Eiddo Gwag (wedi'i gymhwyso'n awtomatig unwaith y bydd awdurdod lleol yn cael gwybod bod yr eiddo yn wag)
- Rhyddhad Gwelliannau (wedi'i gymhwyso'n awtomatig unwaith y bodlonir amodau)
- Rhyddhad Rhwydweithiau Gwresogi (angen gwneud cais)
- Rhyddhad Ardrethi Manwerthu, Hamdden a Lletygarwch (angen gwneud cais)
- Rhyddhad Trosiannol (wedi'i gymhwyso'n awtomatig)

Yn ein grŵp ffocws, rydyn ni'n bwriadu trafod:

- Sut mae talwyr ardrethi yn teimlo am y graddau presennol o gymorth ariannol sydd ar gael drwy ryddhadau ardrethi annomestig, gan gynnwys y rhyddhadau sydd fwyaf a lleiaf defnyddiol.
- Ymwybyddiaeth talwyr ardrethi o'r rhyddhadau ardrethi annomestig o fewn cwmpas yr adolygiad.
- Profiadau o'r broses ymgeisio.
- Ydy talwyr ardrethi yn teimlo bod ganddynt sicrwydd ynghylch faint y byddant yn ei dalu a phryd bob blwyddyn?
- Effeithiau derbyn rhyddhadau ardrethi annomestig ar eu busnes.
- Ydy talwyr ardrethi yn teimlo eu bod yn gwybod sut mae'r refeniw a godir gan ardrethi annomestig yn cael ei wario?

2. A fydd y pynciau hyn yn cwmpasu'r holl bethau cadarnhaol a negyddol o ran rhyddhadau ardrethi annomestig y gallai talwyr ardrethi fod eisiau eu trafod?
3. Oes unrhyw ryddhad y gallai mynychwyr ganolbwyntio gormod neu rhy ychydig arno?
4. Oes unrhyw faterion a allai fod yn ddadleuol y mae angen i ni fod yn ymwybodol ohonynt?
5. Rydyn ni'n bwriadu ymgysylltu â thalwyr ardrethi o bob rhan o Gymru o amrywiaeth o sectorau busnes. Ydy'r pynciau hyn yn gwneud synnwyr i'r unigolion hyn eu trafod yn fanwl?
 - a. Oes unrhyw bynciau eraill nad ydym wedi'u rhestru ond a fyddai'n ychwanegu at ein hadolygiad o ryddhadau ardrethi annomestig?
6. Oes unrhyw bynciau perthnasol eraill yr hoffech eu trafod cyn i ni orffen y cyfweiliad?

Cwestiynau cyfweiliad cyrff cynrychioliadol

1. I ddechrau, allech chi ddweud wrthyf beth yw teitl eich swydd a sut mae'ch gwaith yn ymwneud â rhyddhadau ardrethi annomestig?

Mae'r rhyddhadau y byddwn yn eu hasesu yn ein hadolygiad, ac sydd felly o fewn cwmpas y cyfweiliad heddiw, fel a ganlyn:

- Rhyddhad Ardrethi Busnesau Bach (wedi'i gymhwyso'n awtomatig)
- Rhyddhad Ardrethi Elusennol (wedi'i gymhwyso'n awtomatig)
- Rhyddhad Ardrethi Eiddo Gwag (wedi'i gymhwyso'n awtomatig unwaith y bydd awdurdod lleol yn cael gwybod bod yr eiddo yn wag)
- Rhyddhad Gwelliannau (wedi'i gymhwyso'n awtomatig unwaith y bodlonir amodau)
- Rhyddhad Rhwydweithiau Gwresogi (angen gwneud cais)
- Rhyddhad Ardrethi Manwerthu, Hamdden a Lletygarwch (angen gwneud cais)
- Rhyddhad Trosiannol (wedi'i gymhwyso'n awtomatig)

Fel y nodwyd wrth ymyl pob rhyddhad, mae rhai o'r rhyddhadau'n cael eu cymhwyso'n awtomatig os yw busnes yn gymwys tra bod eraill yn gofyn bod busnesau'n gwneud cais amdanynt.

2. Sut ydych chi'n teimlo am y graddau presennol o gymorth ariannol sydd ar gael drwy ryddhadau ardrethi annomestig?
 - a. Pa gynlluniau rhyddhad yw'r mwyaf defnyddiol i fusnesau yn gyffredinol yn eich barn chi?
 - b. Pa gynlluniau rhyddhad yw'r lleiaf defnyddiol i fusnesau yn gyffredinol yn eich barn chi?
 - c. Oes unrhyw sectorau busnes ychwanegol y dylid eu cefnogi yn eich barn chi?
3. O'r rhyddhadau rydyn ni'n eu trafod heddiw, pa rai ydych chi'n credu bod busnesau'n fwyaf ymwybodol ohonynt?
 - a. Sut mae lefelau ymwybyddiaeth yn amrywio rhwng gwahanol sectorau, meintiau neu ranbarthau busnes?
 - b. Sut mae busnesau fel arfer yn dod yn ymwybodol o'r rhyddhadau hyn (e.e. cyfathrebu gan awdurdodau lleol, gwefan Busnes Cymru, gwybodaeth a ddarperir gan gyrff cynrychioliadol, cyfryngau cymdeithasol/fforymau, ar lafar)?
 - c. Ydych chi o'r farn y gellid gwneud mwy i gynyddu ymwybyddiaeth o ryddhadau ymhlith busnesau? Os felly, sut?
4. Ydych chi o'r farn bod gan fusnesau ddealltwriaeth dda o ba ryddhad maen nhw'n gymwys ar eu cyfer a'r rhai nad ydyn nhw'n gymwys ar eu cyfer?
 - a. Ydych chi'n gwybod ble gall busnesau ddod o hyd i wybodaeth am feini prawf cymhwysedd?
 - b. Ydy busnesau fel arfer yn ymwybodol o feini prawf cymhwysedd ar gyfer rhyddhadau awtomatig, neu ddim ond y rhai y mae angen iddynt wneud cais amdanynt?
 - c. Sut mae lefelau dealltwriaeth yn amrywio rhwng gwahanol sectorau, meintiau neu ranbarthau busnes?

5. Yn gyffredinol, ydych chi o'r farn bod busnesau'n fodlon â'r broses o dderbyn rhyddhadau ardrethi annomestig?
- a. Sut mae lefelau boddhad yn amrywio rhwng gwahanol sectorau, meintiau neu ranbarthau busnes?
 - b. I'r rhai y mae angen gwneud cais amdanynt, sut beth yw'r broses ymgeisio fel arfer i fusnesau?
 - c. Ydych chi o'r farn bod gan fusnesau sicrwydd bob blwyddyn am (i) faint y byddant yn ei dalu a (ii) pryd y bydd angen iddynt ei dalu?
 - i. Os na, sut mae hyn yn effeithio ar waith cynllunio ar gyfer busnesau yn y dyfodol?
 - d. Oes gennych chi ymdeimlad o foddhad busnesau â dulliau cyfathrebu ac ymatebolrwydd awdurdodau lleol o ran gweinyddu rhyddhadau?
6. Pa effaith mae derbyn rhyddhad ardrethi annomestig yn ei chael ar fusnesau?
- a. Sut mae math neu lefel yr effaith yn amrywio rhwng gwahanol sectorau, meintiau neu ranbarthau busnes?
7. Ydy busnesau fel arfer yn cael gwybod pa wasanaethau yn eu hardal leol sy'n cael eu hariannu gan refeniw ardrethi annomestig?
- a. Os felly, ydych chi'n cael y teimlad bod busnesau'n cytuno â'r defnydd hwn o refeniw gan ardrethi annomestig?
 - b. Os na, i ba raddau y mae hyn yn rhywbeth rydych chi'n credu yr hoffai busnesau fod â mwy o wybodaeth amdano (e.e. awdurdodau lleol yn hysbysebu hyn)?
8. Oes unrhyw bynciau perthnasol eraill yr hoffech eu trafod cyn i ni orffen y cyfweiliad?

Cwestiynau cyfweiliad talwyr ardrethi a grwpiau ffocws

1. I ddechrau, a all pawb rannu eu henw, ardal eu hawdurdod lleol, a'u sector busnes?

Mae'r rhyddhadau y byddwn yn eu hasesu yn ein hadolygiad, ac sydd felly o fewn cwmpas y grŵp ffocws/cyfweiliad heddiw, fel a ganlyn:

- Rhyddhad Ardrethi Busnesau Bach (wedi'i gymhwyso'n awtomatig)

- Rhyddhad Ardrethi Elusennol (wedi'i gymhwyso'n awtomatig)
- Rhyddhad Ardrethi Eiddo Gwag (wedi'i gymhwyso'n awtomatig unwaith y bydd awdurdod lleol yn cael gwybod bod yr eiddo yn wag)
- Rhyddhad Gwelliannau (wedi'i gymhwyso'n awtomatig unwaith y bodlonir amodau)
- Rhyddhad Rhwydweithiau Gwresogi (angen gwneud cais)
- Rhyddhad Ardrethi Manwerthu, Hamdden a Lletygarwch (angen gwneud cais)
- Rhyddhad Trosiannol (wedi'i gymhwyso'n awtomatig)

Fel y nodwyd wrth ymyl pob rhyddhad, mae rhai o'r rhyddhadau'n cael eu cymhwyso'n awtomatig os yw busnes yn gymwys tra bod eraill yn gofyn bod busnesau'n gwneud cais amdanynt.

2. Sut ydych chi'n teimlo am y graddau presennol o gymorth ariannol sydd ar gael drwy ryddhadau ardrethi annomestig?
 - a. Pa gynlluniau rhyddhad yw'r mwyaf defnyddiol i fusnesau yn gyffredinol yn eich barn chi?
 - b. Pa gynlluniau rhyddhad yw'r lleiaf defnyddiol i fusnesau yn gyffredinol yn eich barn chi?
 - c. Oes unrhyw sectorau busnes ychwanegol y dylid eu cefnogi yn eich barn chi?
3. O'r rhyddhadau rydyn ni'n eu trafod heddiw, pa rai oeddech chi'n ymwybodol ohonyn nhw eisoes?
 - a. Sut daethoch chi'n ymwybodol o'r rhyddhadau hyn (e.e. cyfathrebu gan awdurdodau lleol, gwefan Busnes Cymru, gwybodaeth a ddarperir gan gyrrff cynrychioliadol, cyfryngau cymdeithasol/fforymau, ar lafar)?
 - b. Ydych chi o'r farn y gellid gwneud mwy i gynyddu ymwybyddiaeth o ryddhadau ymhlith busnesau? Os felly, sut?
4. Ydych chi'n teimlo bod gennych ddealltwriaeth dda o ba ryddhadau rydych chi'n gymwys ar eu cyfer a pha rai nad ydych chi'n gymwys ar eu cyfer?

- a. Ble ydych chi'n dod o hyd i wybodaeth am feini prawf cymhwysedd?
 - b. Ydych chi'n ymwybodol o feini prawf cymhwysedd ar gyfer rhyddhadau awtomatig, neu ddim ond y rhai y mae angen i chi wneud cais amdanynt?
5. Yn gyffredinol, ydych chi'n fodlon â'r broses o dderbyn rhyddhadau ardrethi annomestig?
- a. I'r rhai y mae angen gwneud cais ar eu cyfer, sut beth yw'r broses ymgeisio yn eich barn chi?
 - b. Oes gennych chi sicrwydd bob blwyddyn ynghylch (i) faint fyddwch chi'n ei dalu a (ii) pryd mae angen i chi ei dalu?
 - i. Os na, sut mae hyn yn effeithio ar waith cynllunio eich busnes yn y dyfodol?
 - c. Sut mae dulliau cyfathrebu ac ymatebolrwydd eich awdurdod lleol o ran gweinyddu rhyddhadau yn eich barn chi?
 - i. Ydych chi'n ymwybodol o'r pwynt cyswllt cywir ar gyfer ymholiadau am ryddhadau ardrethi annomestig?
6. Pa effaith mae derbyn rhyddhadau ardrethi annomestig yn ei chael ar eich busnes?
- a. Faint mwy y byddai disgwyl i'ch busnes ei dalu mewn ardrethi annomestig heb y rhyddhadau? [Nodyn ar gyfer yr hwylusydd: nid oes angen union ffigurau, mae amcangyfrifon ansoddol yn iawn]
7. Ydych chi'n ymwybodol o ba wasanaethau yn eich ardal leol sy'n cael eu hariannu gan reffeniw ardrethi annomestig?
- a. Os felly, i ba raddau ydych chi'n cytuno â'r defnydd hwn o reffeniw gan ardrethi annomestig?
 - b. Os na, i ba raddau y mae hyn yn rhywbeth yr hoffech gael mwy o wybodaeth amdano (e.e. awdurdodau lleol yn hysbysebu hyn)?
8. Oes unrhyw bynciau perthnasol eraill yr hoffech eu trafod cyn i ni orffen y grŵp ffocws?